



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cyflawni Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol: enghreifftiau o ymarfer yr adroddwyd gan ysgolion eu bod o gymorth

Cyflawni Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol:
enghreifftiau o ymarfer yr adroddwyd gan ysgolion eu bod o
gymorth

Awduron:

Stephen Burgess, Laura Nesbitt, Suzanne Pritchard, Michael
Davies

Crynodeb o Ymchwil: Burgess, S. a Nesbitt, L. a Pritchard, S. a Davies, M.
(2026) Crynodeb o Ymchwil: Cyflawni Dull Ysgol Gyfan ar Gyfer Llesiant
Emosiynol a Meddyliol: enghreifftiau o ymarfer yr adroddwyd gan ysgolion
eu bod o gymorth. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif
55/2026.

Ar gael yn: [Yn anffodus, nid oedd modd dod o hyd i'r dudalen |
LLYW.CYMRU](#)

Safbwyntiau'r ymchwilydd yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn, ac nid rhai
Llywodraeth Cymru o reidrwydd.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Cangen Llesiant a Gwydnwch Dysgwyr

Yr Is-adran Tegwch mewn Addysg

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

E-bost y tîm: TegwchMewnAddysg@llyw.cymru

 @LIC_Addysg

 Facebook/AddysgCymru

OGL

ISBN digidol 978-1-83745-374-0
© Hawlfraint y Goron Mis 2026
WG54363

Cynnwys

Geirfa	1
1. Cyflwyniad	4
2. Methodoleg	8
2.1 Camau ymchwil	8
2.2 Cam 1: y cam cwmpasu	8
2.3 Cam 2: cyfweiliadau grŵp gyda chydlynwyr	8
2.4 Cam 3: gweithdai ysgolion	9
2.5 Cam 4: ymweliadau astudiaethau achos	9
2.6 Sampl terfynol o ysgolion	9
2.7 Cam 5: gweithdai adborth	10
2.8 Grŵp llywio	10
2.9 Darpariaeth ddwyieithog	10
2.10 Cydsyniad ar sail gwybodaeth	10
2.11 Terminoleg	11
3. Maes ymarfer 1: Meithrin diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB	12
3.1 Cyflwyniad	12
3.2 Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol	14
3.3 Mae deall anghenion lles y gymuned yn hanfodol	19
3.4 Gweithio i sicrhau ymrwymiad i'r WSAEMWB ar draws cymuned yr ysgol	23
3.5 Cefnogi dysgwyr a theuluoedd i reoli gorbryder	26
3.6 Helpu dysgwyr i fynegi a rheoli eu teimladau	27
3.7 Defnyddio 'grwpiau lles'	29
3.8 Creu 'lleoedd i rannu' yn ystod y diwrnod ysgol	30
3.9 Dylunio gofod ffisegol i gefnogi lles dysgwyr	32
4. Maes ymarfer 2: Meithrin cysylltiadau ar draws y gymuned ysgol gyfan	34
4.1 Cyflwyniad	34
4.2 Creu cysylltiadau â dysgwyr	35
4.3 Canolbwyntio ar bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd	39
4.4 Creu cysylltiadau â theuluoedd	41
4.5 Gall darparu cymorth ychwanegol gyda bwyd helpu i gefnogi lles a meithrin perthnasoedd	46
4.6 Creu cysylltiadau â chymuned ehangach yr ysgol	48
5. Maes ymarfer 3: Cysoni'r WSAEMWB â'r Cwricwlwm i Gymru	49
5.1 Cyflwyniad	49
5.2 Gwneud cysylltiadau clir rhwng WSAEMWB a'r cwricwlwm	50
5.3 Cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd	52

5.4	Rhoi cyfleoedd a phrofiad i ddysgwyr	53
5.5	Ystyried goblygiadau darpariaeth ar y safle	55
5.6	Sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn eithrio dysgwyr o wersi	55
5.7	Ystyried sut mae dysgwyr yn deall lles	56
6.	Maes ymarfer 4: cefnogi lles staff	58
6.1	Cyflwyniad	58
6.2	Darparu te, coffi a byrbrydau	60
6.3	Cynnal gweithgareddau lles staff	60
6.4	Darparu cefnogaeth bersonol 1-i-1 i staff	61
6.5	Cyfeirio at wybodaeth am les	62
6.6	Caniatáu amser o'r gwaith i staff am resymau teuluol	63
6.7	Creu amgylchedd sy'n cefnogi addysgu a dysgu	64
6.8	Cymorth gyda llwyth gwaith	67
6.9	Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus	68
6.10	Ailgynllunio ystafelloedd staff i gefnogi lles	69
6.11	Creu lle ar gyfer amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)	70
6.12	Llais y staff	71
7.	Casgliadau	72
7.1	Soniodd ysgolion am ystod eang o ymarfer a oedd, yn eu barn nhw, yn cefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB	72
7.2	Rhwystrau a heriau o ran darparu WSAEMWB	73
7.3	Mae gweithio traws-sector a chlwstwr yn werthfawr i'r WSAEMWB	74
7.4	Adroddodd ysgolion fod gweithredu WSAEMWB wedi bod yn fuddiol	75
	Atodiad A: Gwybodaeth am gyd-destun yr ysgol	76

Geirfa

Adnodd Hunanwerthuso'r Dull Ysgol Gyfan ar gyfer Llesiant Emosiynol a Meddyliol

Adnodd sy'n helpu ysgolion i werthuso cynnydd ysgolion yn erbyn dogfen y fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol. Mae'r adnodd yn hwyluso'r gwaith o ddechrau, datblygu a chynnal WSAEMWB (Whole School Approach to Emotional and Mental Well-being).

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Yn ôl Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 (Deddf ADY), "mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo neu ganddi anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n galw am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol."

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Cytundeb rhyngwladol sy'n rhwymo'n gyfreithiol sy'n amlinellu hawliau sylfaenol pob plentyn. Yng Nghymru, mae CCUHP wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol fel sail ar gyfer llunio polisiau mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.

Cwricwlwm i Gymru

Cwricwlwm cenedlaethol integredig, sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gynllunio eu cwricwlwm (weithiau gan weithio gydag ysgolion eraill) yn unol â gofynion a chanllawiau statudol cenedlaethol. Mae gan y cwricwlwm 4 diben craidd sy'n amlinellu gweledigaeth a rennir ar gyfer pob plentyn ac unigolyn ifanc. Mae yna hefyd 6 Maes Dysgu a Phrofiad troswaol.

Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CADY)

Aelod dynodedig o staff sydd â chyfrifoldeb strategol i sicrhau bod anghenion pob dysgwr ag ADY o fewn ysgol yn cael eu diwallu.

Cymwys ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim (eFSM)

Mae prydau ysgol am ddim yn seiliedig ar brawf modd ac ar gael i blant a phobl ifanc sy'n mynychu ysgolion a gynhelir ac sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd penodol. Fe'u defnyddir yn gyffredin fel mesur o anfantais economaidd-gymdeithasol.

Cynllun Datblygu Unigol (CDU)

Dogfen statudol a baratowyd ar gyfer dysgwyr y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Ymhlith pethau eraill, mae'r CDU yn cynnwys disgrifiad o'r anghenion dysgu ychwanegol a'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol i'w rhoi ar waith yn ogystal â phwy sy'n gyfrifol am gyflawni hyn. Mae CDUau yn cynnwys cynllun gweithredu clir sy'n cael ei adolygu o leiaf yn flynyddol.

Dogfen y fframwaith ar sefydlu dull ysgol gyfan ar gyfer llesiant emosiynol a meddyliol

Canllawiau statudol Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2021. Mae'r fframwaith yn nodi nifer o gamau y mae angen i ysgolion eu cymryd, a nifer o

ofynion y mae angen iddynt eu bodloni i gefnogi datblygiad WSAEMWB. Mae'r fframwaith yn cefnogi dull ysgol gyfan i helpu i fynd i'r afael ag anghenion llesiant emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc, gan gydnabod na all ysgolion ar eu pennau eu hunain ddiwallu holl anghenion poblogaeth gymhleth. Mae'r fframwaith wedi'i gynllunio i adeiladu ar y gwaith da y mae llawer o ysgolion eisoes yn ei wneud.

Dulliau ysgol gyfan

Mae dulliau ysgol gyfan yn cydnabod nad cwricwlwm yr ysgol yn unig sy'n addysgu ac yn dylanwadu ar iechyd a lles dysgwyr, ond pob agwedd ar amgylchedd yr ysgol (e.e. staff, oedolion eraill a dysgwyr eraill yn arddangos ymddygiad cadarnhaol; yr amgylchedd ffisegol; polisïau'r ysgol; ethos yr ysgol; a'r amgylchedd dysgu). Mae dulliau ysgol gyfan yn gweithio ar draws cymuned yr ysgol gyfan, ac yn cydnabod bod pob lleoliad yn unigryw.

Grant Datblygu Disgyblion (GDD)

Cyllid a roddir i ysgolion gyda'r nod o godi cyrhaeddiad plant a phobl ifanc o gartrefi incwm isel. Rhoddir y Grant Datblygu Disgyblion bob blwyddyn ariannol a chaiff ei ddyrannu i ysgolion yn seiliedig ar nifer y plant yn yr ysgol sy'n bodloni'r meini prawf cymhwysedd. Mae'r meini prawf hyn yn cynnwys cymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) a phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal (CLA).

Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS)

Gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol y GIG sy'n cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc drwy gymysgedd o ofal sylfaenol ac eilaidd.

Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh)

Mae'r Cwricwlwm i Gymru'n cynnwys 6 thema amserol drosfwaol, neu Feysydd Dysgu a Phrofiad. Mae'r rhain yn cynnwys MDaPh Iechyd a Lles. Mae'r MDaPhau yn cysylltu â 4 diben y cwricwlwm, ac mae canllawiau cenedlaethol ar gael i helpu ysgolion i gynllunio eu cwricwlwm yn unol â'r MDaPhau. Cyfeirir at y MDaPhau hyn weithiau fel 'meysydd'.

Mwy Abl a Thalentog (MAT)

Dysgwyr sy'n elwa o gyfleoedd cyfoethog ac estynedig ar draws y cwricwlwm er mwyn datblygu eu galluedd mewn un neu fwy o feysydd.

Plant sy'n Derbyn Gofal (CLA)

Plentyn sydd yng ngofal Awdurdod Lleol neu sy'n cael llety, am gyfnod parhaus o fwy na 24 awr, gan yr awdurdod wrth arfer rhai swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol.

Rhwydwaith Ymchwil Iechyd Mewn Ysgolion (SHRN)

Partneriaeth rhwng Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru, a Phrifysgol Caerdydd sy'n ystyried polisïau, ymarfer ac ymchwil. Nod y SHRN yw gwella iechyd a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru drwy weithio gydag ysgolion cynradd ac uwchradd i gynhyrchu a defnyddio tystiolaeth o ansawdd da ar gyfer gwella iechyd.

Rhwydwaith Ysgolion Cymru sy'n Hyrwyddo Iechyd a Lles (WNHWPS)

Galwyd y rhaglen hon yn y gorffennol yn Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru, ac mae hi wedi cefnogi ysgolion yng Nghymru i sefydlu dull ysgol gyfan mewn perthynas ag iechyd a lles ers 1999.

Saesneg fel Iaith Ychwanegol (SIY)

Disgyblion nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (SYThau)

Cyflogir Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd gan ysgolion i feithrin cysylltiadau rhwng yr ysgol a theuluoedd drwy gynnig cefnogaeth, arweiniad, a rhywun i siarad ag ef. Gall ysgolion ddefnyddio enwau eraill ar gyfer y rolau hyn, fel Swyddogion Cyswllt Teulu neu Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned.

Tîm Arweinyddiaeth Uwch (UDA)

Grŵp o staff sydd â chyfrifoldeb am reolaeth strategol a gweithredol ysgol.

1. Cyflwyniad

Ers 2021, mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi adnoddau sylweddol a chynyddol i gefnogi ysgolion i ddatblygu a chynnal dull 'ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol' (WSAEMWB). Roedd cyhoeddi [Fframwaith ar ymgorffori dull ysgol gyfan ar gyfer lles emosiynol a meddyliol](#) gan Lywodraeth Cymru yn 2021 yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion ystyried WSAEMWB fel rhan allweddol o'u cynllunio (e.e. ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Ysgol, neu'r CDY). Mae [offeryn hunanwerthuso a chanllawiau gwerthuso](#) cysylltiedig a ddatblygwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cefnogi ysgolion i gyflawni eu WSAEMWB.

Gellir dadlau bod y ffocws ar WSAEMWB wedi'i yrru gan 2 ffactor allweddol: pryder am iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru a thystiolaeth y gall ysgolion fod yn safleoedd pwysig ar gyfer ymyriadau iechyd.

Mae iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru wedi bod yn destun pryder ers blynnyddoedd lawer. Carreg filltir allweddol wrth ddatblygu WSAEMWB oedd cyhoeddi adroddiad [Cadernid Meddwl](#) Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd yn 2018. Gan adeiladu ar waith cynharach a barn rhanddeiliaid, cyflwynodd yr adroddiad ganfyddiadau ymchwiliad i'r cymorth sydd ar gael ar gyfer iechyd a lles emosiynol plant a phobl ifanc, gan gynnwys ffocws ar atal ac ymyrryd yn gynnar. Nododd yr adroddiad gyflwr gwael iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc fel pryder iechyd y cyhoedd yng Nghymru. Roedd y dystiolaeth a gasglwyd gan yr ymchwiliad yn cynnwys ffigurau Amser i Newid Cymru a oedd yn awgrymu y byddai tua 10% o bobl ifanc yng Nghymru yn cael problem iechyd meddwl gyda bron i 75% o'r bobl ifanc hynny'n poeni am sut byddai eu ffrindiau'n ymateb pe baent yn gwybod. Mae'r tueddiadau hyn yn parhau i beri pryder. Yng Nghymru, fel mewn mannau eraill, mae patrymau iechyd meddwl a lles ymysg plant a phobl ifanc, a oedd eisoes yn dirywio, wedi cael eu gwaethygu gan bandemig Covid-19 ([UNICEF, 2025, Llywodraeth Cymru, 2022](#)). Mae'r rhain wedi cael eu dwysáu gan yr argyfwng costau byw (e.e. [Adegboye et al, 2021](#)). Gellid dadlau bod mwy o ffocws wedi bod ar gymorth iechyd meddwl mewn ysgolion yng Nghymru dros y blynnyddoedd diwethaf ([Brown et al, 2023](#)), mewn ymateb i bryderon. Mae hyn wedi cynnwys WSAEMWB a pharhau i ddatblygu [gwasanaethau cwnsela yn yr ysgol a'r gymuned](#).

Ers tro byd, mae ysgolion wedi cael eu cydnabod fel cyd-destunau pwysig ar gyfer hyrwyddo iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc ar adeg dyngedfennol a all ddylanwadu ar eu hiechyd yn y dyfodol (e.e. [Higgins a Booker, 2023](#); [Wyn et al, 2000](#)). Mae'r ffocws hwn ar ysgolion yn defnyddio corff cryf o ymchwil sy'n dangos y gall nodweddion lleoedd ddylanwadu ar iechyd (e.e. [Macintyre et al, 2002](#); [Palacios et al, 2020](#); [White et al, 2020](#)).

Mae 'dulliau ysgol gyfan' yn cydnabod nad cwricwlwm yr ysgol yn unig sy'n addysgu ac yn dylanwadu ar iechyd a lles dysgwyr, ond pob agwedd ar amgylchedd yr ysgol (e.e. modelau rôl o ymddygiad cadarnhaol gan staff, oedolion eraill a dysgwyr eraill; yr amgylchedd ffisegol; polisïau'r ysgol; ethos yr ysgol; a'r amgylchedd dysgu). Mae dulliau ysgol gyfan yn gweithio ar draws cymuned yr ysgol gyfan. Yn yr ymchwil hwn, mae cymuned yr ysgol gyfan yn

cynnwys pawb y mae ysgol yn ymgysylltu â nhw i gefnogi dysgwyr. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd ond gallai hefyd gynnwys gwasanaethau proffesiynol ac arbenigol (e.e. CAMHS) neu aelodau o'r gymuned leol (e.e. elusennau, busnesau, aelodau o'r gymuned leol).

Mae dulliau ysgol gyfan yn ymyriadau iechyd yn yr ysgol sy'n gyfannol, gan weithio ar draws pob agwedd ar amgylchedd yr ysgol i gynhyrchu negeseuon a gweithgarwch iechyd cyson sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi gwell iechyd a lles. Yn yr adroddiad hwn, er bod 'WSAEMWB' wedi cael ei ddefnyddio i gyfeirio at ddull statudol penodol Llywodraeth Cymru, mae'r term 'dull ysgol gyfan' yn cyfeirio at theori ac ymarfer y dull yn fwy cyffredinol.

Argymhellir yn aml bod dulliau ysgol gyfan o fudd i wella iechyd meddwl a chorfforol plant a phobl ifanc, yn ogystal â chanlyniadau cymdeithasol, emosiynol ac addysgol mewn ysgolion. Ar ôl nodi pryderon ynghylch iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, prif argymhelliad adroddiad Cadernid Meddwl oedd bod Llywodraeth Cymru yn gwneud lles emosiynol a meddyliol a gwytnwch plant a phobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol. Argymhellodd yr adroddiad fod hyn yn cynnwys datblygu dull ysgol gyfan yng Nghymru. Er bod diwygio'r cwricwlwm yn gyfle i wreiddio iechyd a lles yn y cwricwlwm, dywedodd yr adroddiad hefyd fod angen gwneud llawer o waith i ddatblygu dulliau ysgol gyfan llwyddiannus, gan gynnwys cefnogi hyder a chapasiti staff yn ogystal â darparu arweiniad a chyllid i ysgolion gyflwyno'r dull ysgol gyfan. Roedd yr adroddiad yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyhoeddi ymateb cyflym i'r adroddiad, gan gynnwys llwybr at lwyddiant. Mewn ymateb i argymhelliad yr adroddiad, arweiniodd rhaglen waith (e.e. [y Senedd, 2019](#); [Cadernid Meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach, 2020](#)) gan gynnwys sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Cyd-weinidogol newydd ar Ddull Ysgol Gyfan ar gyfer Iechyd Meddwl a Lles, at ddatblygu WSAEMWB Llywodraeth Cymru wedi hynny.

O ystyried y pwysigrwydd a roddir ar WSAEMWB, yn ogystal â'r angen i gefnogi staff i gyflawni'r dull gweithredu, cynlluniwyd yr ymchwil hon yn bwrpasol i nodi enghreifftiau o ymarfer a allai fod yn ddefnyddiol i ysgolion i gefnogi'r gwaith o gyflawni eu WSAEMWB a chyflwyno'r ymarfer hwn yn thematig. Cafodd ymarfer ei grwpio'n bedwar maes y nodwyd eu bod yn bwysig ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddatblygu a darparu WSAEMWB:

- maes 1: Meithrin diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB
- maes 2: Meithrin cysylltiadau ar draws yr ysgol gyfan
- maes 3: Cysoni'r WSAEMWB â'r Cwricwlwm i Gymru
- maes 4: Cefnogi lles staff

Ym mhob maes, grwpwyd ymarfer a oedd â nodau tebyg gyda'i gilydd. Mae'r adroddiad yn cyflwyno cymysgedd o sylwebaeth ac enghreifftiau ymarfer gan ysgolion penodol. Oherwydd natur gyfannol WSAEMWB, roedd gorgyffwrdd rhwng meysydd.

Nid gwerthusiad oedd yr ymchwil ac nid oedd yr arferion yr adroddwyd eu bod yn ddefnyddiol wedi cael eu profi'n annibynnol na'u cysylltu â data

canlyniadau. Amlygodd yr ymchwil fod ysgolion eisiau enghreifftiau pendant i ddysgu ohonynt ond oherwydd bod pob ysgol ar gam gwahanol o weithredu WSAEMWB a bod eu cyd-destunau'n unigryw - efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio mewn un ysgol o reidrwydd yn gweithio mewn ysgol arall. Er enghraifft, gall arfer effeithiol mewn ysgol fach, wledig fod yn anymarferol i ysgol drefol fawr. Felly, ni all enghreifftiau gynnwys set ragnodol o gamau gweithredu i bob ysgol eu cymryd i gyflawni WSAEMWB yn llwyddiannus. Mae'n debygol y bydd angen addasu arferion rhwng ysgolion. Mae ysgolion hefyd yn debygol o fod eisiau arloesi ac addasu syniadau nad ydynt wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn. Ni ddylid ystyried yr enghreifftiau hyn fel rhestr o bethau y mae'n rhaid i ysgolion eu gwneud, yn hytrach maent yn adnodd i helpu ysgolion i ystyried sut y gallent ddatblygu eu WSAEMWB. Mewn ymateb i arweiniad gan gyfranogwyr ymchwil, mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno amrywiaeth o enghreifftiau o ymarfer fel adnodd y gall ysgolion ddewis ohono ac addasu'r rhai sy'n diwallu anghenion a chynnydd eu hysgol orau ar daith WSAEMWB.

Drwy gyflwyno ymarfer yn thematig yn hytrach nag fel astudiaethau achos sy'n seiliedig ar y gwaith sy'n cael ei wneud mewn un ysgol yn unig, y bwriad yw helpu i sicrhau y gellir cymhwyso dysgu o un cyd-destun i ysgolion eraill i'w helpu i ddarparu WSAEMWB. Y rhesymau am hyn yw:

- all astudiaethau achos sy'n canolbwyntio ar un ysgol sy'n perfformio'n dda osod meincnod afrealistig o uchel, a allai ddatgymell ysgolion sy'n wynebu heriau. Gall y dull hwn fod yn wrthgynhyrchol. Mae cynnig sawl enghraifft o ymarfer yn hytrach yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd ysgolion yn nodi dulliau sy'n addas i'w cyd-destun eu hunain
- Mae cynnig arferion a dulliau gweithredu cyflym sy'n gofyn am fwy o amser yn rhoi syniadau i ysgolion sy'n addas ar gyfer gwahanol lefelau o gapasiti
- Er mwyn gallu cyffredinol i'r hyn a ddysgir o astudiaethau achos penodol a'i drosglwyddo i ysgolion eraill, cytunwyd y bydd gwybodaeth am gyd-destun yr ysgol yn cael ei chynnwys ochr yn ochr â disgrifiadau ymarfer i ganiatáu i ysgolion eraill asesu a myfyrio ar eu hanghenion a'u cyd-destun eu hunain a nodi pa elfennau a allai weithio, neu nad ydynt yn gweithio, yn eu hysgol eu hunain. Darperir gwybodaeth am gyd-destun ysgolion yn Atodiad A. Mae'r gwersi a ddysgwyd yn cael eu cynnwys lle bo hynny'n bosibl.

Defnyddiodd ysgolion amrywiaeth o ffrydiau cyllido i gefnogi gweithgarwch a oedd yn galluogi dull ysgol gyfan, gan ddefnyddio adnoddau a oedd yn cyd-fynd â'u blaenoriaethau. Er enghraifft, defnyddiodd rhai gyllid Grant Datblygu Disgyblion i fynd i'r afael â materion sy'n gysylltiedig â thlodi fel rhan o'u gwaith WSAEMWB ehangach.

Yn olaf, cyfeiriodd rhai ysgolion unigol at raglenni penodol yr oeddent wedi'u prynu. Ni ddylid dehongli unrhyw gyfeiriad at y rhaglenni hyn fel cymeradwyaeth, argymhelliad neu arwydd eu bod yn rhan o'r WSAEMWB. Fe'u cynhwysir fel enghreifftiau yn unig o sut mae ysgolion penodol wedi mynd ati i weithredu. Gan nad oedd yr ymchwil yn asesu effeithiolrwydd nac

ansawdd unrhyw raglen, mae'r cyfeiriadau'n adlewyrchu profiadau'r ysgolion dan sylw yn unig.

2. Methodoleg

2.1 Camau ymchwil

Roedd yr ymchwil yn cynnwys 5 cam. Dylanwadodd pob cam ar y camau a ddilynodd, drwy ddatblygu dealltwriaeth am WSAEMWB a nodi cyfranogwyr ymchwil.

- Cam 1: Cam cwmpasu
- Cam 2: Cyfweiliadau â chydlynwyr
- Cam 3: Gweithdai ysgolion
- Cam 4: Astudiaethau achos
- Cam 5: Gweithdy adborth

2.2 Cam 1: y cam cwmpasu

Roedd y cam cwmpasu'n cynnwys cyfweiliadau ac ymchwil ddesg a gynhaliwyd ochr yn ochr â'i gilydd ac a oedd yn caniatáu cwblhau'r dull ymchwil. Roedd hyn yn cynnwys nodi'r pedwar maes ymarfer allweddol y byddai'n ddefnyddiol eu harchwilio.

Adolygodd ymchwil ddesg ystod o dystiolaeth ar ddulliau ysgol gyfan. Nodwyd ffynonellau gyda mewnbwn gan randdeiliaid WSAEMWB. Nid oedd hwn yn adolygiad systematig o lenyddiaeth, ond roedd ymgorffori rhai adolygiadau systematig presennol yn helpu i gryfhau hyder yn y canfyddiadau. Roedd ffynonellau'n cydgyfeirio'n bennaf o amgylch syniadau tebyg a oedd yn cyd-fynd â gwybodaeth o'r casgliad data sylfaenol, gan atgyfnerthu cadernid y canfyddiadau cynnar hyn. Parhaodd yr adolygiad o ddeunyddiau sy'n dod i'r amlwg drwy gydol y prosiect.

Cynhaliwyd chwe chyfweiliad cwmpasu gydag 8 o randdeiliaid allweddol gyda safbwyntiau strategol a chenedlaethol ar gyflawni fframwaith WSAEMWB, gan gynnwys mewnwelediadau polisi, ymarfer ac ymchwil. Cafodd y cyfranogwyr gopïau o'r cwestiynau ymlaen llaw. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ar-lein a gwnaethant bara hyd at awr. Cafodd cyfweiliadau eu recordio, eu hysgrifennu a'u dadansoddi yn unol â chwestiynau'r ymchwil.

2.3 Cam 2: cyfweiliadau grŵp gyda chydlynwyr

Cynhaliwyd cyfweiliadau grŵp ar-lein gyda 36 o bobl a gefnogodd y gwaith o gyflwyno WSAEMWB. Roedd hyn yn cynnwys cydlynwyr gweithredu WSAEMWB a chydlynwyr Rhwydwaith Ysgolion Hybu Iechyd a Lles Cymru. Yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at y cyfranogwyr hyn i gyd fel 'cydlynwyr'. Cynhaliwyd saith cyfweiliad grŵp, un i bob bwrdd iechyd. Cynhaliwyd cyfweiliadau grŵp ar-lein a gwnaethant bara 90 munud. Cafodd cyfranogwyr gopi o'r pynciau ymlaen llaw. Roedd y drafodaeth wedi'i strwythuro o amgylch y 4 maes ymarfer ac yn archwilio barn cydlynwyr ar ddarparu WSAEMWB mewn ysgolion gan gynnwys llwyddiannau, heriau ac ymarfer a oedd, yn eu barn nhw, yn effeithiol, neu yr oedd yr ysgol wedi adrodd eu bod yn effeithiol. Cofnodwyd, ysgrifennwyd a dadansoddwyd cyfweiliadau yn unol â'r pedwar maes ymarfer. Gofynnwyd i gydlynwyr hefyd helpu i nodi lleoliadau ar gyfer cam 3.

2.4 Cam 3: gweithdai ysgolion

Cynhaliwyd tri gweithdy grŵp gyda staff o 23 o ysgolion ar draws pob un o'r 7 bwrdd iechyd. Nododd cydlynwyr fod ysgolion a gymerodd ran yn dangos eu bod yn darparu WSAEMWB a oedd yn cael ei ystyried yn effeithiol ac wedi'i ddatblygu'n dda. Mewn ysgolion a gymerodd ran, dewiswyd staff a fynychodd y gweithdai oherwydd bod ganddynt wybodaeth dda am sut roedd eu hysgol yn darparu WSAEMWB; roedd llawer ohonynt yn aelodau o'r SLT (Uwch Dîm Arwain) gan gynnwys penaethiaid.

Darparwyd crynodeb o agenda'r gweithdy yn ogystal â'r meysydd ymarfer (gan gynnwys enghreifftiau o weithgarwch y gallai'r rhain eu cynnwys) i gyfranogwyr ymlaen llaw. Roedd pob gweithdy yn para 3 awr ac fe'i cynhaliwyd ar-lein i leihau cost presenoldeb mewn ysgolion o ran adnoddau. Darparodd Llywodraeth Cymru gyllid i dalu costau cyflenwi hanner diwrnod i gefnogi cyfranogiad. Roedd y drafodaeth yn archwilio arferion yr oedd ysgolion yn eu hystyried yn effeithiol o ran helpu i gyflwyno eu WSAEMWB ar draws y pedwar maes allweddol. Cofnodwyd gweithdai a rhestrwyd a disgrifiwyd pob maes ymarfer a grybwyllwyd ar draws y pedwar maes ymarfer.

2.5 Cam 4: ymweliadau astudiaethau achos

Cynhaliwyd ymweliadau astudiaethau achos mewn 9 ysgol a oedd wedi cymryd rhan mewn gweithdai ysgol. Dewiswyd ysgolion o blith y rhai a fynegodd ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn astudiaethau achos ac a ddewiswyd yn fwriadol i archwilio ysgolion lle'r oedd amrywiaeth o arferion gwahanol ar draws y 4 maes ac a oedd yn cael eu hystyried yn effeithiol. Dewiswyd ysgolion hefyd i gynrychioli amrywiaeth o fathau o leoliadau.

Roedd pob ymweliad astudiaeth achos yn cynnwys ymweliad 1 dydd â'r ysgol gan 2 ymchwilydd i gael dealltwriaeth ddyfnach o ymarfer. Cyn pob ymweliad, adolygodd y tîm yr arferion a ddisgrifiwyd gan yr ysgol yn y gweithdy a gwnaeth nodiadau helaeth o dan y meysydd ymarfer ar wahân, yn ogystal â nodiadau ynghylch unrhyw beth arall i'w ddilyn. Cynhaliwyd galwad ffôn cynllunio gyda phob ysgol lle cytunwyd ar yr arfer i'w archwilio. Roedd y dulliau a ddefnyddiwyd yn ystod yr astudiaethau achos yn cynnwys: teithiau dysgu; arsylwi; cyfweiliadau a thrafodaethau grŵp (e.e. gyda'r pennaeth; SLT; arweinydd; lles; staff addysgu a chefnogi; dysgwyr; llywodraethwyr a rhieni); ac adolygu dogfennau. Lluniodd ysgolion amserlen o weithgareddau i gyflawni'r nodau yn y ffordd a oedd yn cyd-fynd orau â'r diwrnod ysgol. Yn ystod ymweliadau, gwnaed nodiadau arsylwi gan ymchwilydd ac fe'u hysgrifennwyd ar draws y pedwar maes ymarfer

2.6 Sampl terfynol o ysgolion

Yn gyfangwbl, cymerodd 23 o ysgolion ran yn yr ymchwil. O'r ysgolion hyn, cymerodd 14 ran yng ngweithdai cam 3 yn unig, tra bod 9 arall wedi cymryd rhan yn y gweithdai a'r astudiaethau achos.

Cynlluniwyd y strategaeth samplu i gasglu ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau o ysgolion ledled Cymru. Roedd hyn hefyd yn caniatáu i'r ymchwili

gasglu gwahanol heriau a modelau ymarfer wrth gyflwyno WSAEMWB. Roedd yr ysgolion yn cynnwys 14 ysgol gynradd, 6 ysgol uwchradd, 2 ysgol pob oed ac 1 ysgol arbennig. O'r rhain, roedd 17 yn ysgolion cyfrwng Saesneg, 5 yn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac 1 yn ysgol ddwyieithog (dwy ffrwd). Er bod 16 ysgol mewn ardaloedd trefol, roedd 5 mewn trefi gwledig a 2 mewn pentrefi gwledig. Roedd yr ysgolion yn cynnwys ystod o broffiliau economaidd-gymdeithasol fel y nodir gan eu Band Prydau Ysgol Am Ddim. Roedd nodweddion y sampl terfynol yn cynnwys ysgolion o wahanol fyrddau iechyd ledled Cymru gyda 3 ysgol o ogledd Cymru, 8 ysgol o ganolbarth de Cymru, 7 ysgol o dde-ddwyrain Cymru a 5 ysgol o dde-orllewin a chanolbarth Cymru.

2.7 Cam 5: gweithdai adborth

Ar ôl dadansoddiad rhagarweiniol o'r holl ddata, cynhaliwyd 2 weithdy adborth i wirio synnwyr, dilysu a mireinio'r canfyddiadau. Roedd y rhain yn para 2 awr ac fe'u cynhaliwyd ar-lein i leihau'r ymrwymiad amser ar ysgolion. Gwahoddwyd pawb a oedd wedi cymryd rhan yng nghymau 2 i 4 i gymryd rhan, gyda 17 o bobl, gan gynnwys cydlynwyr a staff ysgolion yn bresennol.

Yn ystod y sesiwn, cyflwynodd y tîm ymchwil y canfyddiadau a oedd yn dod i'r amlwg. Gwahoddwyd y rhai a oedd yn bresennol i roi adborth, egluro pwyntiau, a thrafod ymarferoldeb a defnyddioldeb enghreifftiau o ymarfer effeithiol. Cafodd y sesiwn ei recordio a'i chofnodi. Roedd yr adborth yn ddefnyddiol o ran dyfnhau dealltwriaeth o rai o'r canfyddiadau a llunio'r adroddiad terfynol.

2.8 Grŵp llywio

Mae'r prosiect wedi cael ei arwain gan Grŵp Llywio a drefnwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd y grŵp yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, ymchwilwyr academiaidd ac iechyd y cyhoedd, a chynrychiolwyr o ysgolion, awdurdodau lleol a chonsortia rhanbarthol. Cyfarfu'r grŵp 3 gwaith yn ystod y prosiect: yn ystod cam 1 (cyfrannu at wybodaeth bresennol a dyluniad y prosiect); rhwng camau 2 a 3 (diweddariad ymchwil) a rhwng camau 4 a 5 (adborth ar ganfyddiadau sy'n dod i'r amlwg). Helpodd y grŵp cwmpasu i lywio amcanion a dyluniad yr ymchwil yn ogystal â rhoi rhai o'r canfyddiadau mewn cyd-destun.

2.9 Darpariaeth ddwyieithog

Roedd darparu'r ymchwil yn ddwyieithog yn un o ymrwymadau allweddol a phwysig y prosiect. Cynhaliwyd neu cynigiwyd pob cam o'r ymchwil yn Gymraeg ac yn Saesneg, gan sicrhau y gallai ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfranogwyr Cymraeg ymgysylltu'n llawn.

2.10 Cydsyniad ar sail gwybodaeth

Rhoddwyd gwybod yn llawn i'r cyfranogwyr am yr ymchwil cyn cymryd rhan, gan gynnwys darparu taflenni gwybodaeth ar gyfer y rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth achos ysgol. Cafwyd caniatâd ysgrifenedig neu lafar gan yr holl

gyfranogwyr. Roedd cymryd rhan yn wirfoddol, gyda'r opsiwn i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg.

2.11 Terminoleg

Yn yr adroddiad hwn rydym yn mabwysiadu'r canlynol

- Mae teuluoedd yn cyfeirio at bobl sy'n oedolion mewn amgylchedd cartref dysgwr
- Mae ysgolion yn cyfeirio at bob lleoliad addysgol a gymerodd ran yn yr ymchwil
- Mae dysgwyr yn cyfeirio at ddisgyblion (ac eithrio pan fydd disgyblion yn cael eu defnyddio mewn dyfyniadau, enghreifftiau ymarfer neu ar gyfer termau cydnabyddedig fel llais y disgybl)
- Defnyddir Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (FEOs) i gyfeirio at rolau sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl neu'n rhannol ar ymgysylltu â theuluoedd a'r gymuned (sylwer: defnyddiodd ysgolion dermau gwahanol ar gyfer y rolau hyn, fel Swyddogion Ymgysylltu â'r Gymuned a Swyddogion Cyswllt Teulu)

3. Maes ymarfer 1: Meithrin diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol sy'n cefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB

3.1 Cyflwyniad

Mae meithrin diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol sy'n cefnogi dull cyfannol WSAEMWB yn hanfodol ond gall fod yn heriol, gan gymryd amser i gyflawni a chael cefnogaeth gan gymuned yr ysgol. Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn cynnwys arferion yr adroddodd ysgolion eu bod yn ddefnyddiol ar gyfer datblygu a chynnal diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol. Mae Tabl 2 yn crynhoi'r ymarfer sy'n cael sylw yn yr adran hon.

Crynodeb o'r ymarfer mesul thema sy'n cael sylw ym maes 1

3.1.1. Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol

- Arweinyddiaeth o'r brig: mae ymrwymiad uwch arweinwyr yn hanfodol a rhaid i bennaeth hyrwyddo WSAEMWB
- Cael datganiad clir a chryf o'ch ethos WSAEMWB
- Integreiddio lles a'r WSAEMWB yn niwylliant yr ysgol
- Mabwysiadu dull myfyriol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o ddarparu WSAEMWB sy'n addas i'r ysgol
- Rhaid i arweinwyr WSAEMWB feddu ar ddealltwriaeth gref o WSAEMWB ac ymrwymo iddo
- Creu tîm arwain WSAEMWB i helpu i sbarduno newid lle bo hynny'n briodol
- Yr angen am gysondeb a modelu rôl gan arweinwyr WSAEMWB
- Cael negeseuon a chyfathrebu clir, cryf a chyson ynghylch WSAEMWB ac ymgynghori ar beth yw'r sianeli cyfathrebu gorau
- Cefnogi staff drwy gyflwyno a chynnal WSAEMWB
- Mabwysiadu meddylfryd twf: derbyn bod rhywfaint o fethiant yn debygol a dysgu ohono - cyfathrebu llwyddiannau a methiannau a sut mae'r ysgol yn symud ymlaen o'r ddau
- Cefnogi staff pan nad yw pethau'n mynd yn ôl y bwriad
- Gall WSAEMWB gynnwys gwahanol lefelau o newid sy'n gofyn am ymwybyddiaeth ac ystyriaeth o deimladau neu bryderon staff; rhaid deall anghenion lles staff a'u hintegreiddio yn y dull ysgol gyfan
- Cynhwyswch gymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys dysgwyr, yn y gwaith o ddatblygu'r WSAWB

3.1.2 Mae deall anghenion lles y gymuned yn hanfodol

- Mae angen i'r Uwch Dîm Arwain fod yn barod i ymchwilio i anghenion lles y gymuned
- Pan fydd ar gael, gall sefydliadau allanol sy'n cefnogi ysgolion (e.e. cydlynwyr) gefnogi'r Uwch Dîm Arwain i ymchwilio i anghenion lles cymuned yr ysgol gyfan

- Mae cyfuno data meintiol ac ansoddol i asesu a monitro anghenion lles yn bwysig
- Gall hyfforddiant staff, gan gynnwys dylunio ymchwil a sgiliau meintiol fod yn fuddiol
- Mae dealltwriaeth staff o'u cymunedau yn bwysig, nodir bod 'teimlad' ysgol yn bwysig wrth asesu lles a llwyddiant WSAEMWB - mae'n anodd ei ddiffinio ond gellir ei arsylwi

3.1.3 Gweithio i sicrhau ymrwymiad i'r WSAEMWB ar draws cymuned yr ysgol

- Mae ymrwymiad staff yn bwysig i lwyddiant WSAEMWB a dylai fod yn rhan o gynllunio WSAEMWB
- Dylai datblygu WSAEMWB fod yn sensitif i bryderon staff a sicrhau nad yw'n cael effaith negyddol ar les staff, gan gynnwys llwyth gwaith
- Mae cefnogi staff drwy ddatblygu a gweithredu'r WSAEMWB yn bwysig
- Mae'n bwysig ymgysylltu â'r holl staff o'r dechrau: gall staff ymroddedig eirioli i eraill
- Perthnasoedd da a chyfathrebu clir yw'r sail i ddealltwriaeth dysgwyr a theuluoedd o WSAEMWB a'u hymrwymiad iddo

3.1.4 Cefnogi dysgwyr a theuluoedd i reoli gorbryder

- Cefnogaeth gan awdurdodau lleol a gweithwyr meddygol proffesiynol i ddarparu strategaethau i helpu dysgwyr â gorbryder i fynd i'r ysgol
- Creu manau sy'n cefnogi dysgwyr sydd angen cymryd amser allan o'r dosbarth pan fyddant yn teimlo'n bryderus
- Ymgymryd â gweithgaredd sy'n cefnogi dysgwyr sy'n cael trafferth gyda gorbryder ynghylch arholiadau cyhoeddus

3.1.5 Helpu dysgwyr i fynegi a rheoli eu teimladau

- Defnyddio anifeiliaid a allai gefnogi lles. Gall y rhain fod yn 'anifeiliaid anwes' ysgol traddodiadol neu'n anifeiliaid y mae athrawon neu sefydliadau allanol yn dod â nhw i'r ysgol
- Strategaethau sy'n caniatáu i bob dysgwr fynegi a rheoli ei emosiynau (e.e. bwystfilod pryder, cardiau lluniau emosiwn, teganau ffidlan)

3.1.6 Defnyddio grwpiau lles

- Mae grwpiau lles yn dod â dysgwyr at ei gilydd i ymgymryd â gweithgareddau sy'n ymwneud â lles ac yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r WSAEMWB mewn gwahanol ffyrdd (e.e. mae dysgwyr yn helpu i arwain gweithgarwch lles yn yr ysgol; mae grŵp yn cefnogi lles dysgwyr eu hunain)
- Dylai ysgolion ystyried diben grwpiau lles
- Dylai ysgolion sicrhau bod prosesau i ddysgwyr ddod yn aelodau o grwpiau lles yn briodol i ddibenion y grŵp

3.1.7 Creu amser yn ystod y diwrnod ysgol i ddysgwyr siarad, gwrando a rhannu eu meddyliau a'u teimladau

- Disgrifiwyd y rhan fwyaf o'r enghreifftiau yn yr ymchwil fel 'amser cylch'
- Roedd modelau amser cylch masnachol yn cael eu defnyddio ond mae Pecyn Cymorth Beth sy'n Gweithio WSAEMWB lechyd Cyhoeddus Cymru yn nodi bod dulliau amser cylch eisoes yn cael eu defnyddio mewn llawer o ysgolion ledled Cymru heb gost ychwanegol
- Cafodd dulliau eu trosglwyddo a'u haddasu'n llwyddiannus rhwng cyd-destunau cynradd ac Uwchradd

3.1.8 Dylunio gofod ffisegol i gefnogi lles dysgwyr

- Creu mannau tawel a diogel lle gall plant dawelu a rheoli eu hemosiynau
- Creu mannau tawel a diogel lle gellir addysgu plant y tu allan i'r ystafell ddosbarth brif ffrwd pan fo angen
- Defnyddio golau, cerddoriaeth, deunyddiau naturiol, gwrthrychau ar waliau i greu amgylchedd tawel
- Ffaniau i oeri ystafelloedd dosbarth
- Lleihau amser o flaen sgrin

3.2 Mae arweinyddiaeth gref yn hanfodol

Roedd cyfranogwyr yn aml yn atgyfnerthu pwysigrwydd cefnogaeth uwch arweinwyr i lwyddiant WSAEMWB. Pan fydd y pennaeth yn hyderus yn y dull gweithredu, ac yn hyrwyddwr ac arweinydd WSAEMWB allweddol, gall hyn helpu i sicrhau ymgysylltiad ysgol gyfan ac ymrwymiad parhaus. Mae arweinyddiaeth gref yn helpu i integreiddio lles a'r WSAEMWB i ddiwylliant ysgol yn hytrach na'i drin fel 'gwaith ychwanegol'. Mae hefyd yn helpu i ennyn ymrwymiad y staff, y dysgwyr a'r teuluoedd.

Gall rhoi tîm arwain ar waith i oruchwylio'r gwaith o gyflwyno'r WSAEMWB fod o gymorth; gall maint yr ysgol, o ran nifer y dysgwyr a'r staff, ddylanwadu ar faint y tîm arwain a rolau ei haelodau. Gall cynnwys staff eraill yn y gwaith o arwain y ddarpariaeth fod yn effeithiol gan ei fod yn dod â syniadau gwahanol at ei gilydd ac yn meithrin capasiti a chadernid. Er enghraifft, mewn ysgolion lle nad oes ond un arweinydd ar gyfer WSAEMWB, gall y dull arafu os yw'r person hwnnw'n gadael yr ysgol.

Mae negeseuon clir, cryf a chyson yn helpu i wreiddio WSAEMWB a chael cefnogaeth gan gymuned gyfan yr ysgol. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu clir am bwysigrwydd ac ethos WSAEMWB, gan ddefnyddio sianeli cyfathrebu priodol. Gall ymgynghori ag aelodau o gymuned yr ysgol ynghylch y dulliau cyfathrebu sy'n cael eu ffafrio helpu i sicrhau bod sianeli cyfathrebu sy'n briodol i gynulleidfaoedd penodol yn cael eu defnyddio. Gall cyfarfodydd staff rheolaidd (e.e. cyfarfodydd staff cyffredinol; timau lles) fod yn rhan bwysig o sicrhau cyfathrebu, adborth a chefnogaeth. Gellir hwyluso ymrwymiad cymunedol cryf i WSAEMWB drwy gynnwys cymuned yr ysgol gyfan, gan

gynnwys dysgwyr, yn y gwaith o ddatblygu'r WSAEMWB fel y dangosir yn yr enghreifftiau ymarfer ar ddiwedd yr adran hon.

Mae'n bwysig bod gan arweinwyr y WSA ddealltwriaeth glir o'u dull ysgol gyfan, a hyder ynddo, fel y gallant gyfleu ei bwrpas yn effeithiol. Pan fydd arweinwyr yn modelu ymddygiadau cyson a chadarnhaol, maent yn helpu i ymgorffori'r dull fel rhan o ethos yr ysgol. Mae cyflwyno WSA yn gyfle i gryfhau lles ar draws cymuned yr ysgol, gan gefnogi staff a dysgwyr. Fel gydag unrhyw newid, gall staff brofi ystod o deimladau, felly mae bod yn sylwgar i'w safbwyntiau, a gweithio gyda'u cwestiynau, eu pryderon a'u brwdfrydedd, yn helpu i greu amgylchedd cefnogol lle gall pawb ymgysylltu â'r dull ac elwa ohono.

Mae arweinwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi staff drwy gyflwyno a chynnal WSAEMWB, gan gynnwys darparu hyfforddiant priodol i gefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB; rhoi hyder i staff gyflawni'r WSAEMWB a chefnogi llwyth gwaith staff i liniaru effeithiau ar staff lle mae angen mwy o waith ganddynt.

Gallai dull myfyriol sy'n seiliedig ar dystiolaeth o gyflwyno a chynnal WSAEMWB helpu i ddatblygu dull cryfach sy'n addas i'r ysgol. Gall arweinwyr ddefnyddio amrywiaeth o ffynonellau data i helpu i lywio ac arwain eu WSAEMWB, gan gynnwys: canfyddiadau ymchwil o Gymru a thu hwnt; adroddiadau ysgolion SHRN; siarad ag ysgolion eraill yn y clwstwr ac mewn mannau eraill yng Nghymru; data awdurdodau lleol; Pecyn Cymorth Beth sy'n Gweithio lechyd Cyhoeddus Cymru; adroddiadau dysgu WSAEMWB lechyd Cyhoeddus Cymru; astudiaethau achos ysgolion; gweld arferion ar waith mewn ysgolion eraill. Mae dull llwyddiannus sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n fyfyriol yn cydnabod ei bod yn aml yn bwysig addasu ymarfer i'r ysgol yn hytrach na dibynnu ar fodel parod.

Gall hefyd fod yn ddefnyddiol i ysgolion fabwysiadu'r hyn sy'n cael ei ddisgrifio'n aml fel 'meddylfryd twf'. Mae hyn yn golygu cydnabod nad yw rhoi cynnig ar ddulliau newydd bob amser yn mynd yn ôl y bwriad a gweld y profiadau hyn fel cyfleoedd i ddysgu a mireinio ymarfer. Gall timau arwain chwarae rhan allweddol drwy annog staff pan fydd heriau'n codi, eu helpu i gynnal hyder i barhau i arbrofi, addasu neu ddyfalbarhau hyd yn oed pan nad yw canlyniadau'n digwydd ar unwaith. Mae bod yn agored am lwyddiannau a rhwystrau yn ogystal ag egluro sut gall yr ysgol symud ymlaen o bob un, yn helpu i greu diwylliant lle mae dysgu, myfyrio a gwelliant parhaus yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r enghreifftiau canlynol yn dangos dulliau arwain cryf o ddarparu WSAEMWB.

3.2.1 Enghraifft o ymarfer: arweinyddiaeth fyfyriol

Ysgolion cynradd ffederal yw ysgolion L a T. Mae'r ysgolion tua milltir ar wahân ac yn cydweithio'n agos. Roedd ganddynt ddalgylch economaidd-gymdeithasol cymysg gyda thlodi cynyddol. Roedd gan deuluoedd anghenion cymhleth a oedd yn newid yn gyson. Roedd gan yr ysgolion lefelau uchel o ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Er bod gan bob ysgol ei hunaniaeth ei hun, roedd yr ysgolion yn rhannu arferion ac ethos cryf. Roedd yr Uwch Dîm Arwain yn hyrwyddwyr llafar ac ymroddedig i'r WSAEMWB, gan gyfleu ei ddiben yn glir a helpu staff i ddeall pwysigrwydd gweithio i newid y diwylliant a datblygu a chynnal y dull gweithredu. Gyda phenderfyniad cryf gan yr Uwch Dîm Arwain, roeddent wedi datblygu a chynnal ffocws ar addasu dulliau gweithredu i wella lles emosiynol a meddyliol, a ddechreuodd gyda 'gweld a gwrando'. Roedd staff nad oeddent yn rhan o'r Tîm Arwain Strategol (e.e. staff addysgu, cynorthwyrwyr addysgu, Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd) yn ymwneud ag arwain ar weithgarwch WSAEMWB yn ogystal â chyfrannu at drafodaeth am yr hyn a oedd yn gweithio a'r hyn y gellid ei wella.

Bum mlynedd yn ôl, cymerodd yr ysgolion gam yn ôl i edrych ar ble'r oeddent a ble'r oeddent am fod. Gan weithio gyda staff a llywodraethwyr, fe wnaethant ddatblygu gweledigaeth. Roedd 3 nod i'r man cychwyn hwn: (1) meithrin dysgwyr llwyddiannus sy'n ffynnu; (2) arwain pobl at ragoriaeth a (3) newid cymuned a gwlad er gwell. Roedd y weledigaeth hon yn parhau i fod yn sail i holl weithgarwch yr ysgol.

Trafododd y tîm arwain yr angen i 'eistedd mewn anghysur' am gyfnod. Roedd hyn yn golygu na allwch gymryd cynllun yn unig a'i roi ar waith, rhaid ichi ymgodymu â'r ffordd y mae'n berthnasol yn lleol. Dywedodd y pennaeth, "Yn aml byddwch yn darllen astudiaeth achos, byddwch yn defnyddio'r egwyddorion gan eu bod wedi gweithio'n dda mewn un lle. Fodd bynnag, fel tîm mae angen i chi fynd drwy'r anesmwythder a'r anghyseindedd gwybyddol sy'n dod law yn llaw â hynny [mae hynny'n bwysig]." Defnyddiodd yr SLT ystod o dystiolaeth (e.e. ymchwil, enghreifftiau a theori) i gefnogi eu dull gweithredu. Roeddent yn croesawu methiant ac yn barod i newid a dysgu. Roedden nhw'n fyfyrion ac roedd ganddyn nhw'r hyn roedden nhw'n ei alw'n 'lens ymholi' a oedd yn archwilio lle'r oedd bylchau'n bodoli. Roeddent yn dweud ei bod bob amser yn bwysig cofio ble'r oeddent wedi dechrau, a gweld eu cynnydd a beth wnaethant er mwyn cyflawni hynny.

Gyda'i gilydd, cymerodd yr ysgolion amser i ddeall eu cymunedau lleol, gan gynnwys heriau, rhwystrau ac ystadegau (e.e. lefelau llythrennedd, amddifadedd a thrawma ysgol i rieni) ac archwiliodd arferion effeithiol mewn ysgolion eraill i asesu beth fyddai'n gweithio iddyn nhw. Gyda ffocws ar wrando, cafodd yr SLT ei ddenu i addasu dull penodol yn seiliedig ar amser cylch. Trafodir gweithredu'r dull hwn isod fel enghraifft o ddod â staff ar daith WSAEMWB.

3.2.2 Enghraifft o ymarfer: siapia gwerthoedd yn ethos

Mabwysiadodd Ysgol A 4 gwerth allweddol craidd: (1) gweithio'n galed, (2) parch, (3) gwydnwch, a (4) cyfrifoldeb. Dywedodd staff nad geiriau ar dudalen yn unig oedd y gwerthoedd hyn, ond eu bod yn dylanwadu ar sut roedd addysgu, dysgu a pherthnasoedd yn gweithio ar draws yr ysgol.

Cyflwynwyd y gwerthoedd ar ddechrau pob blwyddyn mewn gwasanaethau boreol ac fe'u cyfathrebwyd ledled yr ysgol, gyda staff yn eu modelu ac yn cyfeirio'n benodol atynt mewn ystafelloedd dosbarth. Er enghraifft, mewn

gwers gerddoriaeth, efallai y bydd athrawon yn egluro bod 'parch' yn golygu gwrandod astud yn ystod perfformiadau. Defnyddiwyd gwerthoedd hefyd i fframio sgysiau pan nad oedd disgwyliadau'n cael eu bodloni, gan ddarparu iaith gyson ar gyfer ymddygiad a lles.

Pwysleisiodd arweinwyr nad yw gwreiddio gwerthoedd yn ymwneud ag arwyddion symbolaidd ond â siapiau ethos yr ysgol. Nododd un uwch arweinydd, 'rhan o fy rôl yw sicrhau ansawdd, felly rwy'n dod i mewn i wersi ac yn gwirio dysgu, felly mae'n ymwneud â'n hethos a [gofyn], 'ydwy i'n gallu gweld hynny yn yr ystafell ddosbarth'. Teimlai staff fod y ffocws hwn yn sicrhau nad oedd gwerthoedd wedi'u cyfyngu i bosteri neu bolisiau ond eu bod yn weladwy mewn ymarfer dyddiol.

Roedd yr ysgol yn cydnabod bod gwydnwch yn faes pryder penodol, ac roedd yn mynd ati'n fwiadol i integreiddio cyfleoedd i'w ddatblygu pan fo'n bosibl. Enghraifft dda o hyn oedd eu defnydd o wythnosau asesu strwythuredig lle mae dysgwyr yn magu hyder mewn sefyllfaoedd arholiadau, ac sy'n cael ei drafod mewn enghraifft yn nes ymlaen yn yr adran hon.

Roedd dull gweithredu Ysgol A yn tynnu sylw at sut y gall set glir a chyson o werthoedd fod yn sylfaen ar gyfer diwylliant cadarnhaol yn yr ysgol.

3.2.3 Enghraifft o ymarfer: ymgynghori â chymuned yr ysgol i ddatblygu gweledigaeth

Gall cynnwys cymuned yr ysgol gyfan wrth ddatblygu WSAEMWB helpu i greu ymgysylltiad ac ymrwymiad. Daeth Ysgol K â phobl at ei gilydd i fyfrio ar yr hyn roeddent yn ceisio ei gyflawni fel cymuned ysgol. Fe wnaethon nhw ymgynghori'n helaeth i ailddiffinio gweledigaeth yr ysgol, gan gynnwys: gwahodd rhieni i mewn; siarad â dysgwyr; a gweithio gyda'r gymuned i ganfod beth roeddent nhw'n meddwl y mae angen mynd i'r afael ag ef. Canfuwyd bod angen canolbwyntio ar greu diwylliant cadarnhaol ar gyfer cymuned ysgol sy'n wynebu tlodi, nid yn unig yn ariannol, ond hefyd o ran cyfleoedd, profiad a dyheadau - materion a oedd wedi wynebu cenedlaethau lawer o'r gymuned honno. Fel y dywedodd un aelod o staff, "mae gennym genedlaethau o deuluoedd sydd erioed wedi gweithio a dysgwyr sy'n dod atom ni sydd â dyheadau isel iawn o ran ble maen nhw'n mynd nesaf."

- Dilynwch strwythur. Roedd Ysgol M wedi mabwysiadu dull gweithredu a oedd wedi bod yn ddefnyddiol iddynt. Fodd bynnag, dylid nodi, er bod dulliau masnachol ar gael, bod adolygiad Pecyn Cymorth Beth sy'n Gweithio WSAEMWB lechyd Cyhoeddus Cymru o Circle Solutions wedi nodi bod dulliau amser cylch eisoes yn cael eu cynnal am ddim mewn llawer o ysgolion ledled Cymru
- Byddwch yn barod i ddelio â phynciau eithaf trwm. Er enghraifft, yn y gorffennol roedd dysgwr yn poeni y byddai eu taid yn marw oherwydd ei fod yn sâl
- Os yw rhai dysgwyr yn fwy amharod i siarad, newidiwch y pwnc
- Efallai y bydd rhai pynciau'n rhy sensitif i'w trafod mewn grŵp
- Dyma beth fyddai cyngor dysgwyr i ysgolion eraill: mae'n bwysig bod dysgwyr yn siarad am eu teimladau ac yn cael cyfle i wneud hynny; os nad yw ysgol yn gwneud amser cylch, yna dylent ddal i ddarparu lle i drafod. Mae rhannu emosiynau hefyd yn dod â phobl at ei gilydd nad ydynt efallai yn yr un grwpiau o ffrindiau

3.9 Dylunio gofod ffisegol i gefnogi lles dysgwyr

Trafodir defnyddio gofod ffisegol i gefnogi lles teuluoedd a meithrin perthnasoedd (e.e. ystafelloedd teulu, ystafelloedd cymunedol) ym maes 2 a thrafodir defnyddio gofod ffisegol i gefnogi lles staff (e.e. ystafelloedd staff, ystafelloedd Cynllunio, Paratoi ac Asesu (PPA)) ym maes 3. Fodd bynnag, mae defnyddio gofod ffisegol i gefnogi lles dysgwyr yn rhan o amgylchedd yr ysgol gyfan sy'n cael ei anwybyddu weithiau. Fodd bynnag, roedd rhai ysgolion wedi dylunio gofod ffisegol i gefnogi lles dysgwyr mewn gwahanol ffyrdd.

Er enghraifft, roedd gan ysgol K ystafell synhwyrdd yn y cyfnod cynradd, lle gallai plant ddatgywasgu ond roedd ganddynt hefyd ystafell ddosbarth synhwyrdd i fynd â phlant allan a dysgu'r cwricwlwm prif ffrwd iddynt mewn amgylchedd gwahanol. Gallai'r dysgwyr fynd yn ôl i'r ystafell ddosbarth brif ffrwd pan oedden nhw'n barod.

Dywedodd dysgwyr lefel uwchradd yn ysgol K hefyd fod ystafelloedd y gallent fynd iddynt pe baent yn cael eiliad wan. Roedd y dysgwyr yn teimlo bod rhywle lle gallai'r disgyblion reoli eu hemosiynau yn ddefnyddiol, gydag un yn dweud "os ydych chi'n teimlo ychydig yn isel ar y diwrnod hwnnw, gallwch chi fynd i eistedd yn yr ystafell am awr neu ddwy efallai i dawelu eich hun neu gael chwa fach o awyr iach ac yna, wyddoch chi, mae hynny weithiau wir yn

golygu llawer i bobl.” Roedd gan Ysgol B le pwrpasol lle gallai dysgwyr gofrestru bob bore ac ar ddiwedd y dydd neu os oedd angen iddynt wneud hynny yn ystod y dydd. Gallai dysgwyr atgyfeirio eu hunain neu gael eu hatgyfeirio gan staff. Yn ystod y cyfnod pontio, nodwyd dysgwyr blwyddyn 6 a allai elwa o gael eu atgyfeirio i'r man hwn pan fyddant yn cyrraedd yr ysgol.

Roedd gan rai ysgolion syniadau estynedig o ofod tawelach drwy'r ysgol, gan gymryd amser i greu mannau tawel a chynhyrchiol gan ddefnyddio:

- Goleuadau (e.e. golau isel; golau naturiol)
- Cerddoriaeth
- Deunyddiau naturiol (e.e. llawer o bren; planhigion)
- Amrywio waliau (e.e. lliwiau yma a thraw, lluniau)
- Mae Ysgol L yn defnyddio ffaniau oeri, ar gyfer dysgwyr ifanc ag ADHD sy'n teimlo bod y gwres yn anghyfforddus ac yn tynnu eu sylw.

3.9.1 Enghraifft o ymarfer: creu amgylchedd tawel

Mewn ymateb i bryderon gan rieni ac ymchwil i effaith treulio gormod o amser o flaen sgrin ar les a chwsgr plant, roedd ysgol S yn mynd i'r afael ag agweddau negyddol diddyfniad golau glas drwy leihau amser o flaen sgrin yn yr ystafell ddosbarth hefyd, gydag un aelod o staff yn dweud, “Os nad oes angen y sgrin, nid yw'n cael ei defnyddio. Dydy'r golau yn yr ystafelloedd dosbarth ddim ymlaen neu os oes ei angen mewn misoedd tywyllach dim ond hanner y goleuadau sy'n cael eu rhoi ymlaen. Mae'r dysgwyr yn dod i arfer yn gyflym iawn.” Teimlai'r staff fod yr awyrgylch yn yr ystafell ddosbarth yn dawelach ar y cyfan ac yn fwy cynhyrchiol gyda'r newidiadau hyn. Roedd staff addysgu yn ysgol S hefyd yn defnyddio sŵn cefndir neu gerddoriaeth yn rheolaidd, a oedd yn cael ei chwarae ar lefel isel yn yr ystafell ddosbarth. Dywedasant fod y gerddoriaeth a chwaraewyd ganddynt wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr ag ADHD. Roedd yn hyrwyddo awyrgylch tawel, a dywedodd athrawon fod plant yn cymedroli eu lleisiau mewn ymateb a bod llai o sŵn yn gyffredinol.

4. Maes ymarfer 2: Meithrin cysylltiadau ar draws y gymuned ysgol gyfan

4.1 Cyflwyniad

Mae meithrin perthnasoedd cryf o ansawdd rhwng staff, dysgwyr, teuluoedd a, lle bo'n bosibl, y gymuned ehangach wrth galon WSAEMWB llwyddiannus. Os yw ysgolion yn cymryd amser i feithrin perthnasoedd cryf, gall fod yn ddefnyddiol am sawl rheswm gan gynnwys: helpu i greu ymddiriedaeth, empathi ac ymdeimlad o berthyn; helpu i gynhyrchu amgylcheddau ysgol a chartref sy'n cefnogi pob aelod o gymuned yr ysgol; a chefnogi'r gweithgaredd sydd ei angen i ddarparu WSAEMWB yn llwyddiannus.

Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn cynnwys ymarfer yr adroddodd ysgolion ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer meithrin perthnasoedd ysgol-dysgwr a pherthnasoedd ysgol-cartref. Efallai y bydd ysgolion hefyd am ystyried perthnasoedd staff-staff a dysgwyr-cartref yn ogystal ag ymgysylltu â'r gymuned ehangach.

Crynodeb o'r ymarfer fesyl thema sy'n cael sylw ym maes 2

4.1.1 Make connections with learners

- Gall cael staff ar giât yr ysgol ar ddechrau a diwedd y dydd mewn ysgolion uwchradd yn ogystal ag ysgolion cynradd helpu i feithrin cysylltiadau â dysgwyr
- Gall cael staff ar ddrysau ystafell ddosbarth i groesawu dysgwyr i wersi helpu i feithrin cysylltiadau â dysgwyr
- Annog a gwrandio ar lais y disgybl gan ddefnyddio dulliau priodol; ystyried a gweithredu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a chyfleu'r ymateb yn glir
- Gall arolygon dysgwyr helpu i ddeall safbwyntiau dysgwyr; gellir defnyddio canlyniadau i fynd i'r afael â materion mewn gwahanol ffyrdd gan gynnwys datblygu cwricwlwm
- Gellir creu ffurflenni cyswllt digidol a phapur i alluogi dysgwyr i roi gwybod i staff am bryderon y dylid ymateb iddynt mewn modd priodol ac amserol
- Gall cyfyngiadau ar ffonau symudol wella rhyngweithio, ond dylid ystyried y ffordd orau o'u rhoi ar waith mewn unrhyw ysgol benodol

4.1.2 Canolbwyntio ar bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

- Canolbwyntio ar bontio fel cyfnod pan ddylai lles dysgwyr a theuluoedd fod yn ffocws (e.e. rheoli gorbryder)
- Gwrandio ar bryderon dysgwyr a rhieni ac ymateb iddynt
- Lle bo'n bosibl, meithrin cydberthnasau rhwng dysgwyr cyn ac ar ôl iddynt bontio i'r ysgol uwchradd
- Dylai trefniadau rhannu data sicrhau bod yr holl ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer pob dysgwr yn yr ysgol gynradd yn cael ei deall

- Gall darparu gweithgaredd pontio gwell fod o fudd i rai dysgwyr

4.1.3 Creu cysylltiadau â theuluoedd

- Gall meithrin perthnasoedd fod yn anodd a gall gymryd amser, amynedd ac mae ysgolion yn disgrifio'r angen i fod yn bresenoldeb cyson. Mae hyn yn arbennig o wir wrth weithio gyda theuluoedd sy'n teimlo eu bod wedi ymddieithrio ac wedi datgysylltu oddi wrth yr ysgol, weithiau dros nifer o genedlaethau
- Mae angen i ysgolion fod yn glir am y rhesymau dros ymgysylltu â'r gymuned a'i berthynas â'r WSAEMWB; mae bod yn glir amdano yn helpu i'w egluro i eraill
- Archwilio ystod o ddulliau cyfathrebu a defnyddio'r rhai mwyaf priodol i deuluoedd
- Annog a gwrandao ar lais y teulu gan ddefnyddio dulliau priodol; ystyried a gweithredu ar yr hyn sy'n cael ei ddweud a chyfleu'r ymateb yn glir
- Dod o hyd i ffyrdd o ymgysylltu â'r rheini sy'n anoddach ymgysylltu â nhw (e.e. boreau coffi; cymorth ymarferol; cyfeirio; cyrsiau sgiliau)
- Mae Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (FEO) yn fuddiol i ymgysylltu â theuluoedd. Lle nad oes gan ysgolion y rhain, rhaid i'r angen i staff eraill ymgymryd â'r rôl hon gael ei gefnogi gan arweinyddiaeth

4.1.4 Gall darparu cymorth ychwanegol gyda bwyd helpu i gefnogi lles a meithrin perthnasoedd

- Gall dod o hyd i ffyrdd o ddarparu cymorth ychwanegol gyda bwyd i ddysgwyr a theuluoedd helpu i greu diwylliant ysgol sy'n cefnogi lles dysgwyr a theuluoedd

4.1.5 Creu cysylltiadau â'r gymuned ehangach

- Mae dulliau ysgol gyfan yn gweithio ar draws cymuned yr ysgol gyfan y gellir eu diffinio fel pawb y mae ysgol yn ymgysylltu â nhw i gefnogi dysgwyr
- Mae cymuned yr ysgol gyfan yn cynnwys dysgwyr, teuluoedd a staff, gwasanaethau proffesiynol ac arbenigol (e.e. CAMHS) ac aelodau eraill o'r gymuned leol (e.e. elusennau, busnesau, aelodau o'r gymuned leol)
- Gall creu cysylltiadau ar draws yr holl aelodau hyn yng nghymuned yr ysgol fod yn ddefnyddiol

4.2 Creu cysylltiadau â dysgwyr

Mae meithrin perthynas â dysgwyr yn bwysig er mwyn helpu i greu ymdeimlad o berthyn. Diffinnir perthyn gan lechyd Cyhoeddus Cymru fel "teimlo ymlyniad emosiynol i'r ysgol. Mae'n cynnwys teimlo fy mod yn cael fy nerbyn, fy mharchu, fy nghynnwys a fy mod yn cael fy nghefnogi," (PHW 2024:4).

Awgrymodd yr ymchwil fod teimlo'n gyfforddus yn yr ysgol ac ymddiried yn y bobl yn yr ysgol hefyd yn bwysig i ymdeimlad o berthyn. Mae'r adran hon yn adrodd ar y gwahanol fathau o ymarfer a ddefnyddiodd ysgolion i helpu i wneud cysylltiadau â dysgwyr.

Soniodd rhai ysgolion am bwysigrwydd cael staff yn sefyll wrth y drws i groesawu dysgwyr ar ddechrau pob gwers; yn rhannol, roedd hyn yn helpu i feithrin cysylltiadau â dysgwyr.

Fodd bynnag, arfer a grybwyllwyd amlaf oedd ysgolion cynradd yn datblygu perthynas â dysgwyr a'u teuluoedd drwy gael gwahanol gyfuniadau o uwch arweinwyr a staff ystafell ddosbarth ar giât yr ysgol ar naill ben y diwrnod ysgol a'r llall. Tynnodd ysgolion S, L, T yn ogystal â chyfnod cynradd ysgol K sylw at hyn fel rhan bwysig o ddod i adnabod eu cymuned, meithrin ymddiriedaeth a dyfnhau cysylltiad. Roedd y rhyngweithio cynnar hwn yn ystod y dydd hefyd yn rhoi cyfle i staff greu ymyriadau cynnar, gan sylwi pryd y gallai rhywbeth fod ar goll gyda dysgwr drwy arsylwi. Roedd hefyd yn tynnu sylw at absenoldebau ac yn rhoi cyfle i staff gysylltu â'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheini sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed. Er ei fod yn cael ei ddisgrifio fel arfer cyffredin mewn ysgolion cynradd, awgrymwyd efallai na fydd yn digwydd ym mhob ysgol gynradd ac mae'n sicr yn llawer llai cyffredin mewn ysgolion uwchradd. Roedd Ysgol K, ysgol pob oed, wedi dechrau rhoi staff ar y giât yn eu cyfnod uwchradd i atgynhyrchu ei defnyddioldeb yn eu cyfnod cynradd, fel y disgrifir yn yr enghraifft isod; dyma enghraifft o sut y gellir trosglwyddo ymarfer rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd.

Mae gwrando ar ddysgwyr yn bwysig er mwyn meithrin cydberthnasau rhwng dysgwyr a'r ysgol. Gydag ymrwymiad Cymru i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), mae llais y disgybl yn sylfaenol ac eisoes wedi'i integreiddio i arferion ysgolion Cymru (e.e. cynghorau ysgol). Fodd bynnag, mae cynghorau ysgol yn aml yn hunanddethol ac mewn gweithdai nodwyd y dylid ystyried strategaethau i sicrhau cynrychiolaeth ehangach o'r boblogaeth dysgwyr lle defnyddir y rhain. Yn yr un modd â strategaethau ar gyfer gwrando ar lais rhieni a staff, roedd dulliau llwyddiannus o wrando ar ddysgwyr yn aml yn cynnwys yr elfennau hyn:

- Gadael i ddysgwyr fynegi eu meddyliau a'u pryderon gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i'r ysgol ac unigolion (rhai wedi'u cymell, rhai heb eu cymell)
- Ystyried a gweithredu ar yr hyn y mae dysgwyr yn ei ddweud
- Cyfleu ymateb yr ysgol yn glir a defnyddio dulliau sy'n briodol i'r ysgol a'r gynulleidfa. Dull da yw defnyddio, "dywedoch chi, fe wnaethon ni..." Os yw'r ymateb yn golygu gwrthio'n ôl neu ddweud na, esboniwrch pam

Roedd llawer o ysgolion wedi defnyddio arolygon dysgwyr, naill ai i bob dysgwr neu gyfran ohonynt, i wrando arnynt yn uniongyrchol ac mewn ffordd strwythuredig. Gellid rhannu adborth o arolygon ag aelodau o'r gymuned, gyda staff yn rhoi sylw i feysydd lles lle mae sgoriau isel. Rhoddwyd sylw i'r meysydd hyn yn uniongyrchol gyda dysgwyr, er enghraifft drwy wasanaethau boreol neu wersi arbennig. Yn dibynnu ar y themâu sy'n deillio o'r arolygon, a

oedd hefyd yn cael eu defnyddio weithiau fel meincnod lles, gall ymatebion fod yn gyflym neu gymryd mwy o amser i fynd i'r afael â nhw.

Weithiau, roedd arolygon yn codi materion a oedd yn effeithio ar nifer fach o ddysgwyr, a oedd wedyn yn cael eu cefnogi'n unigol neu mewn grwpiau bach.

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn gwneud addasiadau i'w cwricwlwm mewn ymateb i heriau lles y nodwyd drwy arolygon eu bod yn effeithio ar nifer fawr o ddysgwyr, neu'r gymuned yn gyffredinol. Yn yr adran flaenorol, disgrifiwyd pwysigrwydd gwrandao ar ddysgwyr drwy greu amser yn ystod y dydd i ddysgwyr rannu eu meddyliau a'u teimladau, yn ogystal â'r ffordd y gallai dysgu o'r sesiynau hyn hefyd effeithio ar ddyluniad y cwricwlwm.

Gellir helpu i greu cysylltiadau â dysgwyr hefyd drwy ddefnyddio ffurflenni cyswllt sy'n caniatáu i ddysgwyr gysylltu â staff a rhoi gwybod am unrhyw bryderon. Er enghraifft, roedd ysgol K wedi creu 2 ffurflen cyfathrebu digidol i ddysgwyr eu defnyddio, fel y disgrifir isod.

Mae llawer o ysgolion yn cyflwyno polisïau ffonau symudol, yn rhannol er mwyn gwella'r rhyngweithio rhwng dysgwyr. Dywedodd aelodau o gyngor ysgol y disgyblion yn ysgol K fod y gwaharddiad ar ffonau symudol yn eu hysgol wedi arwain at fwy o rhyngweithio rhwng dysgwyr yn yr ysgol a'r tu allan i'r ysgol. Trafododd Ysgol B gyflwyno gwaharddiad ar ffonau symudol a oedd yn dangos pwysigrwydd nifer o ffactorau a oedd hefyd yn amlwg mewn ysgolion eraill:

- Ymgynghori â'r ysgol gyfan; fel gyda phob arfer a nodir yn yr adroddiad hwn, rhaid addasu gweithgarwch i weddu i bob ysgol, a bydd ymgynghoriad sydd wedi'i gynllunio'n dda yn helpu i ddeall sut i wneud hyn
- Defnyddio canfyddiadau'r ymgynghoriad i nodi a mynd i'r afael â phryderon wrth ddatblygu polisi
- Pwysigrwydd cyfathrebu ynghylch gwaharddiad dros gyfnod rhagarweiniol rhesymol cyn ei roi ar waith
- Cefnogaeth i staff i sicrhau bod polisïau'n cael eu rhoi ar waith yn gyson

4.2.1 Enghraifft o ymarfer: staff 'ar y giât' mewn ysgol uwchradd

Canfu Ysgol K werth dod â'r croeso wrth giât yr ysgol sy'n gysylltiedig â'r ysgol gynradd i'w hysgol uwchradd. Gan sylweddoli bod dod i adnabod dysgwyr yn cymryd amser, roedd arweinwyr dysgwyr agored i niwed yn cyfarch dysgwyr wrth y mynedfeydd amrywiol a ddyrannwyd i wahanol grwpiau blwyddyn bob bore ac, er ei fod yn ddatblygiad newydd yn ddiweddar, roeddent eisoes wedi gweld effaith gadarnhaol ar les, gan ddisgrifio'r fenter fel un amhrisiadwy.

“Gallwch weld y disgyblion, gallwch weld a ydyn nhw'n edrych yn drist, a gallu ymyrryd wedyn yn hytrach na'i fod yn parhau ac mae angen delio ag ef yng nghanol gwers.”

Gan fod y staff yn adnabod y dysgwyr, gallent hefyd sylwi ar iaith y corff, agwedd neu unrhyw beth y gellid ei fwydo i'r tîm pe baent yn synhwyro rhywbeth a allai fod angen sylw. Gallai hyn fod wedi bod yn air cyflym gyda'u hathro wrth ddrws yr ystafell ddosbarth, neu drwy roi neges ar Siartiau Dosbarth i'r tîm ar-alwad a allai gynnig help ar unwaith. Dywedodd staff hefyd eu bod yn gallu sylwi ar unrhyw ddysgwyr absennol yn gynt, gan gadw llygad am y rheini sy'n cael eu hystyried yn agored i niwed.

Roedd croeso'r bore nid yn unig yn gyfle i fynd i'r afael â materion posibl, neu i holi dysgwr pryderus, ond roedd hefyd yn gyfle i ddweud helo a rhannu rhywbeth cadarnhaol neu i gael sgwrs.

Roedd y fenter, a oedd hefyd yn cefnogi pontio o'r ysgol gynradd, i'w gweld yn cael ei chroesawu gan y dysgwyr; dywedodd staff, pe bai'r aelod arferol o staff ar y drws yn absennol, y byddai dysgwyr yn aml yn gofyn ble'r oeddent.

4.2.2 Enghraifft o ymarfer: ffurflenni cyfathrebu i ddysgwyr

Wrth i ddysgwyr symud ymlaen i'r ysgol uwchradd, roedd staff yn ysgol K yn cydnabod bod llai o amser i ddysgwyr gael cyswllt ag aelod o staff a oedd yn eu gweld yn rheolaidd ac a allai sylwi ar broblemau'n gynnar. Yn ogystal â chael staff wrth y giât yn eu cyfnod uwchradd, roedd Ysgol K wedi datblygu ardal bwrpasol ar adran lles ei gwefan, lle gellid cael gafael ar 2 ffurflen.

Enw'r ffurflen gyntaf oedd, 'Hoffwn i fy athro wybod...'. Roedd y ffurflen hon yn caniatáu i ddysgwyr a theuluoedd roi gwybod am unrhyw broblemau cyn i'r diwrnod ysgol ddechrau, gan godi ymwybyddiaeth o ddigwyddiadau fel y gallai cymorth lles fod yn barod i fynd pan fyddai dysgwyr yn cyrraedd. Canfu'r ysgol fod y ffurflen yn cael ei defnyddio mwy yn y cyfnod uwchradd. Roedd yr ysgol wedi cael llwyddiant gyda'r ffurflen hon, gan gynnwys rhoi dysgwyr ar eu radar nad ydynt fel arfer wedi cael eu nodi fel rhai sydd angen cymorth. Er enghraifft, roeddent yn siarad am ddysgwr galluog iawn nad oedd gan staff bryderon amdanynt ac nad oedd yn cael eu hystyried yn agored i niwed ond a oedd wedi dweud rhywbeth gan ddefnyddio'r ffurflen hon a oedd wedi arwain at ymyriad pwysig a hefyd wedi caniatáu i gymorth gael ei roi ar waith pan symudodd y dysgwr ymlaen i'r coleg. Mae'r cyngor i ysgolion eraill ar gyflwyno ffurflen fel hon yn cynnwys:

- Mae ymateb amserol a phriodol i bryderon sy'n cael eu hadrodd yn hanfodol
- Peidiwch â phrynu llwyfannau meddalwedd drud, defnyddiwch feddalwedd am ddim (e.e. MS Forms, Google Sheets)
- Gwnewch yn siŵr bod y ffurflen yn addas ar gyfer eich cynulleidfa; gweithiwch gyda'r dysgwyr i fireinio'r dyluniad. Er enghraifft, roedd y dysgwyr yn teimlo bod y ffurflen yn adnodd gwerthfawr ond roedden nhw'n teimlo y gallai fod yn fwy hygyrch (e.e. wedi'i gosod yn symlach ac yn gliriach gan eu bod yn teimlo y gallai rhywun sydd â nam ar ei olwg ei chael hi'n anodd ei darllen; dylai fersiwn bapur fod ar gael)

Roedd yr ysgol hefyd yn defnyddio llwyfan lle gallai dysgwyr ddweud eu bod yn cael eu bwlio neu'n gweld bwlio. I gefnogi hyn, mae'r staff wedi gorfod gweithio yn erbyn diwylliant lleol yn y gymuned sy'n hyrwyddo 'peidio ag

achwyn ar bobl'. Maen nhw hefyd wedi gorfod gweithio i helpu dysgwyr i ddeall diffiniadau o fwlio (e.e. bydd yr ysgol yn eich cefnogi os ydych chi wedi ffraeo gyda'ch ffrind, ond nid yw hyn o reidrwydd yn fwlio). Roedd y llwyfan hwn hefyd yn ddogfen weithio a allai ddangos pa gamau a gymerwyd ym mhob achos o fwlio, yn ôl yr angen.

4.2.3 Enghraifft o ymarfer: cyflwyno gwaharddiad ar ffonau symudol

“Fe benderfynon ni fod hynny'n rhywbeth roedden ni'n teimlo oedd ei angen ar sail nifer y pwyntiau ffonau symudol a oedd yn dod drwodd, ac adborth gan staff”

Wrth osod y sylfaen ar gyfer polisi ffonau symudol, roedd ysgol B wedi gofyn am adborth gan staff, myfyrwyr a rhieni, gan agor ymgynghoriad i drafod y mater ac i archwilio dichonoldeb mynd i'r afael ag ef. Roeddent wedi casglu gwybodaeth am ganfyddiadau cadarnhaol a negyddol gwaharddiad ar ffonau symudol, ynghyd â gwrthwynebiad i unrhyw waharddiad a roddwyd. Yn rhyfedd ddigon, roedd yr ymgynghoriad wedi datgelu mai dysgwyr oedd un o'r grwpiau mwyaf cadarnhaol yn ei gylch. Gyda'r ymgynghoriad yn cefnogi'r fenter, fe wnaethant greu polisi ffonau symudol a oedd yn ceisio lliniaru'r materion a nodwyd yn yr ymgynghoriad.

Defnyddiodd yr ysgol gynllun cyfathrebu clir i wneud yn siŵr bod cymuned yr ysgol gyfan, gan gynnwys teuluoedd, yn gwybod am y gwaharddiad ffonau symudol a oedd ar y gweill. Buont yn siarad amdano mewn gwasanaethau, yn anfon llythyrau adref ac yn cyfiri'r dyddiau fel rhan o'r cam gweithredu.

Roedd yr ysgol yn cefnogi'r gwaharddiad drwy brynu blychau y gellir eu cloi i storio ffonau symudol i ddysgwyr yn ystod y dydd, y gellid cael mynediad iddynt ar gyfer argyfyngau a defnydd meddygol. Rhoddwyd sgript i'r staff hefyd os oedd ei hangen ar gyfer unrhyw wrthwynebiad.

Teimlai staff mai'r gwaharddiad ar ffonau symudol oedd un o'r symudiadau cryfaf yr oedd yr ysgol wedi'i wneud i helpu i wella diwylliant yr ysgol, a'i fod wedi cael effaith gadarnhaol ar bresenoldeb ac ymddygiad yn y dosbarth, ynghyd ag adborth cadarnhaol gan yr ysgol gyfan.

4.3 Canolbwyntio ar bontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd

Mae pontio yn bwynt allweddol yn nhaith ysgol pob dysgwr ac mae ysgolion cynradd ac uwchradd eisoes yn gwneud llawer o waith i gefnogi pontio. Pwysleisiodd yr ymchwil fod pontio yn gyfnod allweddol lle dylai lles dysgwyr a theuluoedd fod yn ffocws. Roedd yr ymarfer a oedd yn canolbwyntio ar feithrin perthynas rhwng dysgwyr-ysgol a dysgwyr-dysgwyr ynghylch pontio yn cynnwys:

- Roedd rhai ysgolion llai mewn ardal wledig (un ohonynt oedd ysgol S) yn mynd â'r holl ddysgwyr o wahanol ysgolion bwydo i gwrs preswyl tua diwedd blwyddyn 6 (gallai fod yn anoddach mewn ysgolion sydd â mwy o ddysgwyr)
- Dylai ysgolion wrando ar ddysgwyr i glywed eu pryderon am bontio (e.e. drwy fannau rhannu)

- Ail-greu arferion ysgolion cynradd sydd wedi'u cynllunio i feithrin perthnasoedd (e.e. staff wrth y giât; ceisio darparu presenoldeb staff cyson; amser cylch)
- Osgoi 'disgyn drwy'r bylchau' i ddysgwyr yn ystod y cyfnod pontio drwy sicrhau bod yr holl ddarpariaeth sydd ar waith ar gyfer pob dysgwr mewn ysgolion cynradd yn cael ei deall. Dywedodd rhai o'r rhai a oedd yn bresennol yn y gweithdai fod ysgolion yn ceisio cael gwell trefniadau rhannu data ar y cyd rhwng ysgolion uwchradd a'u hysgolion bwydo cynradd
- Proses bontio well i ddysgwyr sydd ei hangen. Mae'r syniadau'n cynnwys ymweliadau ysgol ychwanegol a gwersylloedd pontio dros yr haf
- Mae rheoli gorbryder teuluol yr un mor bwysig â rheoli gorbryder dysgwyr (e.e. yn yr ysgol cefais ymgynghoriad lles lle gallai teuluoedd pontio ofyn am gael aelod o staff i gefnogi'r broses bontio)

4.3.1 Enghraifft o ymarfer: pontio gwell

Cynhaliodd Ysgol B amrywiaeth o weithgareddau pontio gwell a chanfuwyd bod eu hangen ar fwy o ddysgwyr oherwydd nodweddion eu dalgylch. Roedd nifer y dysgwyr yn yr ysgol wedi bod yn cynyddu, a oedd yn rhoi llawer o bwysau ar y tîm pontio. Disgrifir rhai o'r gweithgareddau yr ymgwymerwyd â hwy yma.

Mae gan yr ysgol daflen tracio data sy'n casglu gwybodaeth am ddysgwyr sy'n dod i'r ysgol. Mae'r data'n cynnwys asesiadau personol a bugeiliol, gofal meddygol a chynnydd mewn gwahanol AoLEs. Roedd yr ysgol yn ymwybodol y gallai casglu'r data hwn fod yn feichus i ysgolion cynradd. Fodd bynnag, o'r data hwn, Cynlluniau Datblygu Unigol (CDU) a sgysiau gydag ysgolion cynradd (e.e. penaethiaid, athrawon dosbarth, CADY) fe wnaethant sefydlu pa ddysgwyr y gallai fod angen gwell proses bontio arnynt. Cynigiwyd proses bontio well i ddysgwyr ag ADY yn ogystal â dysgwyr a oedd yn arbennig o bryderus ynghylch symud i'r ysgol uwchradd. Roedd gweithgareddau pontio gwell yn cynnwys:

- Ymweliadau ychwanegol â'r ysgol (hyd at unwaith yr wythnos yn nhymor yr haf)
- Caniatáu ymweliadau ychwanegol i deuluoedd edrych o gwmpas yr ysgol
- Ymweliadau ychwanegol i ysgolion cynradd y dysgwyr gan y tîm pontio
- Gwersi blasu (e.e. Ysgolion Coedwig)

Roedd data a ddarparwyd gan ysgolion cynradd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ba ddysgwyr y gallai fod yn ddefnyddiol eu cadw yn yr un dosbarthiadau. Ceisiodd Ysgol B grwpio dysgwyr hefyd, fel eu bod gyda dysgwyr eraill o'r un ardal ddaearyddol eang. Roedd y data hwn ar gael mewn Siartiau Dosbarth i lywio ymarfer yn yr ystafell ddosbarth.

Rhoddodd yr ysgol enghraifft o ferch blwyddyn 6 oedd yn newydd i'r ardal ac yn siarad ychydig iawn o Saesneg. Roedd yr ysgol gynradd yn poeni sut y

byddai'n ymdopi, gan gynnwys cyrraedd yr ysgol. Felly, fe wnaethon nhw ei gwahodd i mewn ac, wrth i'w thad aros yn y dderbynfa, fe wnaethon nhw ofyn i 2 ddisgybl chweched dosbarth a oedd yn siarad Arabeg ei thywys o amgylch yr ysgol. Roedd hyn yn fuddiol iawn ac yn ei chynorthwyo i bontio i'r ysgol.

Bu'r ysgol hefyd yn gweithio i feithrin perthynas â theuluoedd yn ystod y cyfnod pontio. Roedd gan yr ysgol ddalgylch eang iawn gyda dysgwyr yn dod o bron i 30 o ysgolion cynradd gwahanol, rhai ohonynt yn eithaf pell i ffwrdd. Gallai hyn godi pryderon rhieni ynghylch sut byddai dysgwyr yn cyrraedd yr ysgol, felly roedd y gweithgaredd pontio yn cynnwys siarad â theuluoedd am wahanol ddulliau o gyrraedd yr ysgol heb fod yn hwyr.

4.4 Creu cysylltiadau â theuluoedd

Mae ymgysylltu â theuluoedd yn hanfodol i WSAEMWB. Gall meithrin perthnasoedd fod yn anodd, yn enwedig pan fydd ysgolion yn gweithio gyda theuluoedd sy'n teimlo eu bod wedi ymddieithrio ac wedi'u hynysu o'r ysgol, weithiau dros sawl cenhedlaeth. Pan oedd teuluoedd wedi cael profiadau gwael o'r ysgol eu hunain, maen nhw'n dal yn gallu ei chael hi'n anodd ymgysylltu ag ysgolion, er nad ydyn nhw'n ddysgwyr eu hunain mwyach. Mae meithrin perthnasoedd yn cymryd amser, amynedd ac mae staff yr ysgol yn bresenoldeb cyson. Mae angen i ysgolion fod yn glir am y rhesymau dros ymgysylltu â'r gymuned a'i berthynas â'r WSAEMWB; mae bod yn glir amdano yn helpu i'w egluro i eraill. Er enghraifft, dywedodd un ysgol fod ei hawdurdod lleol weithiau'n cwestiynu pam ei bod yn ymgysylltu cymaint â'r gymuned pan oedd hyn yn amlwg yn hanfodol i'w ethos a'i WSAEMWB i gefnogi addysgu a dysgu.

Roedd rhywfaint o'r arfer a arsylwyd yn cynnwys ymgysylltu â dysgwyr agored i niwed a dysgwyr difreintiedig a'u teuluoedd. Yn y cyd-destunau hyn, mae angen mwy o gymorth ar bobl yn aml, ond gellir addasu mewnwelediadau o'r arferion hyn i ysgolion eraill ac i weithio gyda phob aelod o gymuned ysgol.

Roedd ysgolion a oedd wedi gwneud cynnydd da ar eu taith WSAEMWB yn aml yn deall pwysigrwydd meithrin perthynas â theuluoedd ac yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau i wella sut roeddent yn cyfathrebu a'r hyn roeddent yn ei gyfleu. Roedd enghreifftiau o arfer a adroddwyd yn cynnwys:

- Arolwg rhieni
- Fforwm rhieni
- Sesiynau ymgysylltu â rhieni yn yr ysgol
- Cysylltiadau clir ar wefan yr ysgol, yn ogystal â chyfeiriadau allanol
- Cylchlythyrau drwy e-bost
- Apiau fel HWB, Google Classroom a Seesaw
- Cyfarch wrth y gât
- Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (FEO)
- Nosweithiau rhieni
- Digwyddiadau i'r teulu
- Grwpiau Facebook

Canfu ysgolion fod y dulliau hyn wedi helpu i wella ymgysylltiad. Roedd nodau ymgysylltu yn cynnwys hybu diddordeb mewn addysg dysgwyr, meithrin perthnasoedd cryf ac annog amgylchedd gartref a oedd yn cefnogi lles ac, yn ei dro, dysgu. Dywedodd ysgolion ei bod wedi bod yn bwysig gwranddo ar sut roedd rhieni eisiau i bobl gyfathrebu â nhw, a pharhau â chylch o wrando, gweithredu a diweddarau teuluoedd i wella ymgysylltiad. Roedd deall anghenion lles cymunedol, fel y trafodwyd ym maes 1, yn rhan bwysig o feithrin perthnasoedd.

Roedd gwranddo ar deuluoedd yn rhan bwysig o feithrin perthnasoedd. Rhoddir rhai enghreifftiau o wahanol arferion isod. Yn yr un modd â strategaethau ar gyfer gwranddo ar ddysgwyr a staff, roedd dulliau llwyddiannus o wrando ar rieni yn aml yn cynnwys yr elfennau hyn:

- Gadael i deuluoedd fynegi eu meddyliau a'u pryderon gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i'r ysgol ac unigolion
- Ystyried a gweithredu ar yr hyn y mae teuluoedd yn ei ddweud
- Cyfleu ymatebion yn glir a defnyddio dulliau sy'n briodol i'r gynulleidfa. Dull da yw defnyddio, "dywedoch chi, fe wnaethon ni..." Os yw'r ymateb yn golygu gwrthio'n ôl neu ddweud na, esboniwrch yr ymateb hwnnw

Mae'n bwysig bod yn ymwybodol efallai na fydd rhai pobl yn deall yr angen i ymgysylltu â'r gymuned. Gallai cael strategaeth ymgysylltu â'r gymuned glir a rhesymegol sy'n gysylltiedig ag ethos yr ysgol helpu ysgolion i gyfiawnhau gweithgarwch ymgysylltu â'r gymuned.

Ynghyd ag ymdrechion cyffredinol i gynyddu ymgysylltiad cyffredinol rhieni, yn aml roedd angen i ysgolion ddatblygu ffyrdd ychwanegol o gyrraedd rhieni nad ydynt yn ymgysylltu o gwbl a rhieni nad ydynt yn ymgysylltu cymaint. Roedd presenoldeb rhai dysgwyr yn isel ac roeddent yn dod o gartrefi gydag amrywiaeth gymhleth o heriau a rhwystrau fel amddifadedd, llythrennedd isel, trawma yn yr ysgol a lefelau cyflogaeth isel. Wrth ymweld ag ysgolion a oedd yn ymddangos fel pe bai ganddynt arferion cadarn ar gyfer gweithio gyda'r teuluoedd hyn, gofynnwyd iddynt sut maent yn gwneud hyn. Y neges i'w chofio oedd bod hyn yn anodd a'r allwedd i lwyddiant oedd dyfalbarhad, cysondeb a charedigrwydd yn ogystal â chefnogi teuluoedd pan fo angen.

Roedd gan rai ysgolion un neu fwy o Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd llawn amser neu ran amser. Er bod gan y rolau hyn enwau gwahanol mewn gwahanol ysgolion (e.e. Swyddog Cyswllt Teulu, Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned), byddwn yn cyfeirio atynt fel Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd (FEOs) Talodd rhai ysgolion am FEOs o gyllideb yr ysgol neu drwy gael gafael ar gyllid, er bod mynediad at gyllid yn amrywio rhwng ysgolion. Dywedodd ysgolion a oedd â FEOs nad oeddent yn gwybod sut y llwyddodd ysgolion hebddynt i ymateb i deuluoedd, nac ymgysylltu â theuluoedd mewn modd dyfnach, mwy ystyrlon ac amserol nag y gall ysgolion a oedd â phobl yn y rolau hyn ei wneud. Oherwydd bod amser FEO wedi'i neilltuo i'r rôl - gan gynnwys yn ystod gwyliau'r ysgol weithiau - gallent gael presenoldeb cyson a chyfarwydd, gan gymryd rhan mewn gweithgarwch fel yr un a ddisgrifir yn yr enghreifftiau isod. Wrth wneud hynny, yn y pen draw fe wnaethon nhw helpu i

greu amgylchedd cartref gwell i gefnogi lles dysgwyr yn ogystal â lles y teuluoedd eu hunain.

Fodd bynnag, nid oes gan bob ysgol FEO. Os nad oes gan ysgol FEO, rhaid i staff eraill ymgymryd â'r rôl hon, ac mae angen cefnogaeth gan arweinwyr (e.e. effeithiau ar lwyth gwaith). Gyda gweithio mewn clwstwr yn cael ei nodi fel rhywbeth pwysig i WSAEMWB, efallai y bydd cyfle hefyd i rannu FEO ar draws clwstwr. Dywedodd cyfranogwr yn y gweithdy adborth:

“Roeddwn i mewn ysgol gynradd fawr ddoe heb swyddog cyswllt teulu, felly mae gan yr holl staff rôl gyda chyswllt ac ymgysylltu teuluol yn yr ysgol honno. Credaf fod hynny'n enghraifft dda iawn o arfer da. Nid oedd ganddynt yr arian i ariannu'r FLO penodedig felly mae elfennau o gysylltu ac ymgysylltu â theuluoedd yn [nisgrifiad swydd] pawb, mae disgwyl y gall pawb fod yn FLO. Ac roeddwn i'n meddwl bod hynny'n hyfryd iawn. Felly roedd yn ymwneud â meithrin gallu.”

Isod ceir rhai enghreifftiau o waith a wnaed gan ysgolion. Gellir dosbarthu ymarfer yn ddefnyddiol i'r mathau canlynol o weithgarwch y gall ysgolion eu mabwysiadu i gefnogi'r gwaith o ddarparu WSAEMWB:

- Dod i adnabod eich cymuned
- Bod yn weladwy ac yn bresennol i deuluoedd
- Cwrdd â phobl lle maen nhw
- Gwrando ar deuluoedd
- Meithrin ymddiriedaeth gyda theuluoedd - mae ymatebion prydlon a champau bach yn bwysig
- Darparu cefnogaeth a gwasanaeth cyfeirio i deuluoedd
- Dod â theuluoedd i'r ysgol (y gymuned ac i mewn i'r ysgol ei hun)
- Datblygu mannau pwrpasol i gefnogi teuluoedd
- Dosbarthiadau i rieni (gwella sgiliau rhieni a meithrin cysylltiadau)

Dangosir yr enghreifftiau o ymarfer a amlinellir uchod yn yr astudiaethau achos canlynol.

4.4.1 Enghraifft o ymarfer: gweithio gyda theuluoedd

Roedd gan Ysgol T FEO penodedig, amser llawn. Roedd yr ysgol mewn ardal lle'r oedd rhai heriau economaidd-gymdeithasol sylweddol gan gynnwys lefelau uchel o ddrwgdybiaeth, felly roedd meithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth yn gofyn am ymdrech gyson. Yn ôl yr FEO, roedd bod yn agos-atoch ac yn anfeiriadol yn allweddol i feithrin perthnasoedd.

Gweithiodd yr FEO yn galed i ymgysylltu â theuluoedd anodd eu cyrraedd, drwy ddarparu presenoldeb cyson wrth ollwng plant i'r ysgol a thrwy ddod yn wyneb cyfarwydd a chyfeillgar. Y gobaith oedd bod hyn yn golygu, pan roedd yr FEO yn cysylltu â theuluoedd, fod yr FEO yn teimlo'n llai fel dieithryn a'i fod yn bresenoldeb cadarnhaol. Gyda'r rhan fwyaf o deuluoedd anodd eu cyrraedd, roedd yn ymwneud â chymryd camau bach i ennill ymddiriedaeth a meithrin cysylltiadau.

Nid oedd un dull sy'n addas i bawb o ymgysylltu â rhieni, felly roedd yr ysgol wedi datblygu amrywiaeth o ffyrdd i annog ymateb cadarnhaol:

- Roedd ganddynt ystafell deulu, gyda 2 sofffa, blancedi meddal, lliwiau tawel, clustogau meddal a phlwg persawr tawelu i wneud i'r gofod deimlo'n groesawgar ac ymlaciol ac yn llai tebyg i'r ysgol
- Fe wnaethon nhw gynnal boreau coffi
- Daeth cymorth ymarferol ar ffurf banc bwyd a darparu gwisg ysgol i deuluoedd a oedd yn wynebu heriau fforddiadwyedd
- Buont yn rhedeg cwrs magu plant nad oedd yn cael ei hyrwyddo fel cwrs rhianta, ond fel cwrs a gynlluniwyd i helpu eu plant. Gwahoddwyd deg rhiant, y credai'r ysgol y byddent yn elwa, i'r ysgol am sesiynau 2 awr, lle cawsant de, coffi a sgwrs. Yn ystod yr awr gyntaf, siaradodd rhieni am eu trafferthion, eu problemau a'u pryderon, a daethant i adnabod ei gilydd. Yn aml, roedd rhai profiadau negyddol cryf iawn yn eu plith, ond roeddent yn dysgu nad oeddent ar eu pen eu hunain a bod eu problemau yn aml yn rhai yr oedd eraill wedi'u hwynebu. Roedd hyn yn helpu i leihau unigrwydd ac yn rhoi 'caniatâd' iddynt rannu eu profiadau a dechrau ffurfio cysylltiad. Roedd rhai mamau'n dal i gyfarfod ar ôl y cwrs
- Roedd ganddynt gaffi bach a oedd yn caniatáu i rieni a oedd yn nerfus ynghylch gadael eu plant ar amser gollwng eistedd gyda choffi ac aros gerllaw am awr. Roedd hyn weithiau'n rhoi tawelwch meddwl i'w plant hefyd, a oedd hefyd yn aml yn dioddef o orbryder yn yr ysgol
- Roedd cynnwys tadau weithiau'n golygu dull gweithredu gwahanol a addaswyd i fod yn fwy addas iddyn nhw. Yn hytrach nag eistedd a siarad, gofynnwyd i dadau helpu'n ymarferol drwy adeiladu potiau plannu, ffensys neu rywbeth i wella uned y caffi. Roedd hyn yn dal i ganiatáu iddynt siarad â'i gilydd, ac â'r FEO a meithrin cysylltiadau a rhannu pryderon

Yn hytrach na chontractau traddodiadol yn ystod tymor yr ysgol, roedd cymorth yr FEO ar gael drwy'r rhan fwyaf o'r gwyliau, i greu parhad o ran cymorth. Digwyddodd y newid hwn ar ôl i'r FEO nodi bod cysylltiadau a ddatblygwyd yn ystod y tymor wedi lleihau ar ôl seibiant hir a bod ailddechrau meithrin perthynas mewn tymor newydd yn teimlo fel cam yn ôl. Adeg yr ymchwil, roedd ymgysylltu'n aml yn ymddangos yn well, gan arwain at well presenoldeb a gwell cefnogaeth i deuluoedd a dysgwyr.

4.4.2 Enghraifft o ymarfer: ymgysylltu â'r gymuned

Roedd Ysgol G yn ysgol uwchradd gyda thraddodiad hir a gwerthfawr o ymgysylltu â'i chymuned. Roedd ei lleoliad daearyddol ynysig yn golygu bod yr ysgol bob amser wedi bod wrth galon y dref ac yn cefnogi mentrau lleol i helpu i liniaru problemau cymdeithasol a hyrwyddo lles. Roedd yr arweinyddiaeth bresennol wedi dyfnhau ac ehangu'r rhaglenni hyn mewn ymateb i bwysau cynyddol yn sgil yr argyfwng costau byw a phandemig COVID-19. Roedd eu dull yn cael ei arwain gan dystiolaeth ac roedd yr Uwch Dîm Arwain wedi ymdrechu i sicrhau ymrwymiad staff drwy ddangos sut roedd

ffocws ar les dysgwyr yn gwella ymddygiad ac yn cynyddu ymgysylltiad â dysgu. Cefnogwyd amrywiaeth eang o weithgareddau allgymorth yn y gymuned gyda chyllid a rhyddhau staff. Cyflogwyd hyrwyddwr cymunedol hefyd i weithio gyda theuluoedd yr oedd angen cymorth wedi'i dargedu arnynt a chydabu'r pennaeth fod cyllid ar gyfer y swydd honno'n hanfodol i'r WSAEMWB gan ei fod yn sicrhau cynhwysiant a chyfranogiad dysgwyr agored i niwed a'u teuluoedd.

Roedd Ysgol G wedi creu dull gweithredu yn seiliedig ar y 3 egwyddor hyn:

- cyfrifoldeb
- parch
- cydweithrediad

Roedd y berthynas rhwng dysgwyr ac athrawon yn cael ei hystyried yn eithriadol o bwysig. Roedd yr holl staff yn deall trawma, gan gynnwys y staff arlwy. Roedd yr ysgol yn disgwyl cydweithrediad rhwng dysgwyr a staff ac roedd ymdeimlad o barch at ei gilydd drwy'r ysgol gyfan. Roedd gan ddysgwyr gyfrifoldeb i ddod i'r ysgol yn gwisgo'r wisg ysgol gywir. Os nad oeddent yn gwneud hynny, eu cyfrifoldeb nhw oedd casglu'r wisg gywir, a oedd ar gael iddynt yn nerbynfa'r ysgol. Nid oedd stigma ynghlwm wrth hyn, ond roedd disgwyl i'r dysgwyr ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn drostynt eu hunain i wisgo'n gywir

O dan drefniant 'swyddog cyswllt cymunedol', rhoddwyd cyfres o weithgareddau a chynlluniau ar waith i glymu'r ysgol a'r gymuned leol yn nes at ei gilydd. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Gallai'r adran Bwyd a Maeth ddefnyddio bwyd a roddwyd gan archfarchnad leol gyda'u dosbarthiadau. Roedd y dysgwyr yn gwybod bod y bwyd yn yr oergell ac roedd y rhai mwyaf agored i niwed yn gwybod y gallent fynd â'r eitemau adref heb stigma, er nad oedd yn glir sut roedd y broses hon yn gweithio'n logistaidd
- Sicrhawyd cyllid ar gyfer ystafell gymunedol lle gallai dysgwyr gymryd rhan mewn gweithgareddau gyda'r plant iau o feithrinfa leol, chwarae gemau a defnyddio ciwbiau stori. Sicrhawyd cyllid drwy grant cymunedol gan yr awdurdod lleol
- Defnyddiwyd yr un ystafell hefyd i ddysgwyr Cymraeg fynychu te prynhawn a oedd yn digwydd unwaith y mis er mwyn ymarfer eu Cymraeg mewn amgylchedd meithringar, ynghyd â phobl oeddrannus yn y gymuned. Roedd y dysgwyr yn gweini te ac yn sgwrsio ac yn chwarae gemau gyda phobl o'r gymuned
- Roedd gwerthwr blodau lleol wedi dysgu'r dysgwyr sut i drefnu blodau. Defnyddiodd y dysgwyr flodau a roddwyd gan archfarchnad leol i ddangos eu sgiliau creadigol a threfnu blodau ar gyfer y te prynhawn. Cynigiodd yr ysgol hefyd ddanfôn blodau i'r siop ar adegau prysur. Os bydd ysgolion yn cynnwys dysgwyr mewn gweithgareddau o'r fath, mae angen ystyried diogelwch a dylid eu goruchwyllo gan roi asesiad risg ar waith

- Roedd gan yr ysgol gysylltiadau â grŵp cymunedol a oedd yn gweithio gyda phlant anabl ac roedd dysgwyr wedi helpu gyda garddio; roeddent hefyd wedi mynychu gweithdai a gynhaliwyd gan yr un sefydliad a oedd hefyd yn cynnig gwyliau hygyrch.

4.4.3 Enghraifft o ymarfer: gweithio gyda chymunedau gwledig

Roedd ysgolion a oedd yn gweithio mewn cymunedau gwledig yn wynebu heriau gwahanol i ysgolion lle'r oedd y gymuned yn nes at stepen y drws. Er enghraifft, roedd ysgol M wedi'i hynysu'n ddaearyddol ac roedd yn adeiladu ystafell gymunedol a fydd yn cynnwys cyfleusterau lle gall asiantaethau allanol (e.e. gwasanaethau cymdeithasol) gynnal gwrandawiadau/cyfarfodydd drwy gyswllt fideo. Roedd yr adnodd cymunedol hwn yn dileu'r angen i deuluoedd deithio ac yn darparu lle 'diogel' i deuluoedd mewn sefyllfa llawn straen. Roedd hefyd yn gwella cyfathrebu â gwasanaethau a staff sy'n aml wedi'u lleoli ymhell o'r ysgol. Mae angen i ysgolion addasu i faint a gwasgariad eu dalgylch.

4.4.4 Enghraifft o ymarfer: goresgyn rhagfarn rhieni

Dechreuwyd meithrin perthynas â theuluoedd yn gynnar ar gyfer staff yn ysgol F. Roeddent yn annog llawer o gyswllt uniongyrchol drwy alwadau ffôn ac ymweliadau, gan wynebu heriau'n aml oherwydd rhagfarnau rhieni ynghylch yr ysgol. Roeddent yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y cyswllt yn bodoli nid yn unig pan oedd absenoldebau neu resymau negyddol eraill dros gyfathrebu, ond i rannu canlyniadau cadarnhaol hefyd, ac i ddweud wrth deuluoedd am ddiwrnodau da.

Gyda dysgwyr yn aml yn dod o gefndiroedd difreintiedig, i staff yr ysgol roedd hi'n bwysig gwneud rhyngweithio ac amgylchedd yr ysgol mor gadarnhaol ag y gallent, a rhannu hynny â theuluoedd. Roedd y staff yn llenwi Seesaw gyda lluniau, dolenni lles a phositifrwydd bob dydd, gan annog cyfathrebu a rhyngweithio dwyffordd drwy'r ap.

Lle bo'n bosibl, roeddent yn paru'r dull hwn â rhywbeth a oedd yn effeithio'n uniongyrchol ar y teuluoedd mewn ffordd gadarnhaol ac yn gwneud y mwyaf o'r achlysuron pan oeddent yn eu gweld wyneb yn wyneb, fel pan oedd teulu angen pecyn gan y banc bwyd roeddent wedi'i sefydlu yn yr ysgol.

“Rydyn ni'n casglu bwyd o eglwys leol, felly mae hynny'n ffordd dda o gael cysylltiad cadarnhaol â rhieni. Maen nhw'n galw ac yn gofyn am barsel bwyd brys, felly rydyn ni'n rhoi bwyd iddyn nhw. Weithiau byddwn yn ei ddanfôn. Mae'n creu ac yn cynnal y cysylltiadau cadarnhaol hynny rhwng yr ysgol a'r cartref. Maen nhw'n gallu ein gweld ni fel [sefydliad] o'u cyfnod yn yr ysgol. Mae'n amlwg eu bod nhw wedi cael magwraeth galed iawn neu wedi casáu ysgol, ac rydyn ni'n brwydro yn erbyn hynny.”

4.5 Gall darparu cymorth ychwanegol gyda bwyd helpu i gefnogi lles a meithrin perthnasoedd

Fel rhan o greu diwylliant ysgol a oedd yn canolbwyntio ar gefnogi lles dysgwyr a theuluoedd, roedd rhai ysgolion yn canolbwyntio ar ffyrdd o ddarparu cymorth ychwanegol gyda bwyd i'w dysgwyr a'u teuluoedd. Weithiau

roedd ysgolion yn defnyddio cynlluniau presennol fel Big Bocs Bwyd, a dylid cysylltu'r gwaith o'u gosod â 4 diben y Cwricwlwm i Gymru. Roedd rhai ysgolion yn darparu bwyd i'w cymuned mewn ffyrdd eraill gan gynnwys rhoi parseli bwyd i deuluoedd agored i niwed neu drwy ddarparu brecwast i ddysgwyr. Roedd darparu bwyd hefyd yn aml yn cael ei ddefnyddio fel cyfle i gysylltu â theuluoedd, gan feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth.

Un o'r heriau mwyaf o ran darparu bwyd oedd bod gan ysgolion ledled Cymru fynediad amrywiol at gysylltiadau a dolenni i gefnogi hyn. Yn benodol, gallai fod gwahaniaethau mawr rhwng y cymorth sydd ar gael mewn ardaloedd gwledig a threfol. Er enghraifft, roedd gan un ysgol drefol gysylltiadau â nifer o siopau cadwyn mawr a dywedodd ysgol wledig, heb siopau mawr gerllaw, ei bod yn anoddach sefydlu a chynnal y mathau hyn o gysylltiadau. Yn y gweithdy adborth, dywedodd aelod o staff o'r ysgol wledig, "Roeddwn i'n gwrandao ar bobl yn dweud, o, mae Tesco yn rhoi hyn i ni ac yn y blaen, mae ein Tesco agosaf awr i ffwrdd, rydyn ni'n wledig, wyddoch chi, mae gennym ni Co-op sy'n gweithio'n dda iawn gyda ni ac mae gennym ni Spar, felly mae hynny ynddo'i hun yn ei wneud yn eithaf anodd". Mae hyn yn dangos pwysigrwydd addasu ymarfer i gyd-destun ac adnoddau lleol pob ysgol. Mae'n werth i ysgolion nodi bod gan rai cadwyni mawr ffrydiau cyllido i gefnogi ysgolion (gweler yr enghraifft isod). Roedd gan Ysgol A aelod o staff y mae ei rôl yn cynnwys chwilio am gyllid o'r fath. Roeddent yn awgrymu, os nad oes gan ysgolion y gallu i wneud hyn, y gallent ei gynnwys mewn amser dan gyfarwyddyd aelod o staff neu y gallent weithio gyda'i gilydd mewn clystyrau i ddod o hyd i gyllid.

4.5.1 Enghraifft o ymarfer: dod o hyd i gymorth ar gyfer darparu bwyd

Roedd Ysgol A wedi cael cymorth gan o leiaf 2 siop gadwyn fawr wahanol. Roedd gan yr ysgol yr hyn roedden nhw'n ei alw'n 'swyddog ymgysylltu â'r gymuned' a oedd yn chwilio am gyfleoedd cyllido ac a oedd wedi canfod bod gan lawer o sefydliadau gyllid y gall ysgolion gael gafael arno. Yn eu hysgol nhw, roedd y gadwyn fecws Greggs wedi bod yn ariannu eu clwb brecwast ac yn darparu bwyd. Ar yr un pryd, roedd Tesco wedi darparu llawer o ffrwythau i'r ysgol; ym mis Mai a mis Mehefin, roedden nhw'n eu rhoi, yn bennaf fel bod ffrwythau ar gael i fyfyrwyr a oedd yn sefyll arholiadau, er y gallai unrhyw ddysgwr helpu ei hun i rai.

4.5.2 Enghraifft o ymarfer: dechrau gyda brecwast

Roedd Ysgol F wedi sylwi bod dysgwyr yn dod i'r ysgol yn llwglyd. Roedd hyn yn cael effaith negyddol ar bethau fel hwyliau, gallu i ddysgu a lles cyffredinol. Ar ôl i un athro ddarparu brecwast i'w ddosbarth a gweld manteision, roedd yr ymarfer wedi cael ei gyflwyno ar draws yr ysgol; mae'r dysgwyr a'r staff i gyd bellach wedi dechrau eu diwrnod gyda brecwast gyda'i gilydd ym mhob dosbarth. Defnyddiodd y staff hyn fel cyfle i roi'r egni a'r maeth yr oedd ei angen ar ddysgwyr, ond hefyd i feithrin a dyfnhau'r berthynas rhwng staff a dysgwyr a rhwng dysgwyr.

Yn ystod amser brecwast roedden nhw'n chwarae gemau ac yn sgwrsio, gan wneud pob bore yn brofiad cadarnhaol a rhoi strwythur a sefydlogrwydd i'r dysgwyr. Unwaith eto, roedd cyllid i gefnogi hyn yn bwysig. Mae ymestyn yr

arfer hwn i bob dysgwr hefyd yn debygol o fod yn haws i'w wneud mewn ysgol lai fel ysgol F, nag mewn ysgol fwy.

“Roeddwn i'n arfer prynu bara [a grawnfwydydd] fy hun...yna fe wnes i gwrs meithrin am 3 diwrnod a dywedais mewn diwrnod HMS fy mod i'n meddwl y dylen ni i gyd fod yn gwneud hyn. Felly dyna beth wnaethon nhw, fe wnaethon nhw hynny yn yr ysgol gyfan. Rhoddwyd cegin fach ym mhob ystafell gyda thecellau a grawnfwydydd a gwneuthurwyr brechdanau crasu ac mae wedi mynd o'r fan honno. Dwi'n meddwl mai o hynny y mae llawer o newid wedi dod. Rydyn ni'n eistedd i lawr, rydyn ni'n chwarae rhywbeth gyda nhw bob bore ac rwy'n meddwl ei fod yn dda iawn.”

4.6 Creu cysylltiadau â chymuned ehangach yr ysgol

Mae dulliau ysgol gyfan yn gweithio ar draws cymuned yr ysgol gyfan. Yn yr ymchwil hwn, mae cymuned yr ysgol gyfan yn cynnwys pawb y mae ysgol yn ymgysylltu â nhw i gefnogi dysgwyr. Yn fwyaf cyffredin, roedd y drafodaeth ar gymuned yr ysgol gyfan yn cynnwys dysgwyr, teuluoedd a staff. Fodd bynnag, gellir meddwl am gymuned gyfan yr ysgol fel yr holl bobl y mae ysgolion yn ymgysylltu â nhw, neu y gallent ymgysylltu â nhw mewn ffordd ddefnyddiol. Gallant gynnwys darparwyr gwasanaethau arbenigol (e.e. CAMHS), ond aelodau eraill o'r gymuned hefyd, fel busnesau, trigolion lleol, ac elusennau lleol. Gall creu cysylltiadau ar draws yr holl aelodau hyn yng nghymuned yr ysgol fod yn ddefnyddiol. Roedd yr ymarfer gweithio gyda'r gymuned ehangach a nodwyd yn cynnwys:

- Defnyddio darparwyr gwasanaethau allanol i gefnogi iechyd meddwl a lles dysgwyr, staff a theuluoedd
- Ymgysylltu â'r frigâd dân (e.e. sgysiau am ddiogelwch tân a darparu larymau tân)
- Mynd â dysgwyr i'r gymuned i helpu i feithrin cydlyniant cymunedol a sgiliau rhyngbersonol (e.e. cartrefi gofal preswyl lleol). Dywedodd un ysgol fod mynd â dysgwyr i gartref gofal preswyl, gan weithio gyda chymuned a oedd wedi profi ymddieithrio o'r ysgol mewn sawl cenhedlaeth, wedi cyfrannu at feithrin mwy o ymddiriedaeth yn y gymuned ac mewn ysgolion a chydlyniant cymunedol
- Mae dod â'r gymuned i'r ysgol i ymgysylltu â dysgwyr hefyd yn helpu i feithrin cydlyniant cymunedol a sgiliau rhyngbersonol
- Dod o hyd i gyfleoedd am gymorth gan fusnesau a diwydiant lleol (e.e. ar gyfer profiad gwaith a mewnwelediadau, fel y trafodwyd ym maes 3; i helpu i ddarparu bwyd, fel y trafodwyd uchod

5. Maes ymarfer 3: Cysoni'r WSAEMWB â'r Cwricwlwm i Gymru

5.1 Cyflwyniad

Mae fframwaith WSAEMWB yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i WSAEMWB ategu cwricwlwm yr ysgol. Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn cynnwys ymarfer yr adroddodd ysgolion ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwneud cysylltiadau rhwng WSAEMWB a chwricwlwm yr ysgol. Mae Tabl 4 yn crynhoi'r ymarfer sy'n cael sylw yn yr adran hon.

Crynodeb o'r ymarfer fesul thema sy'n cael sylw ym maes 3

5.1.1 Gwneud cysylltiadau clir rhwng WSAEMWB a'r cwricwlwm

- Gall disgwyliadau ysgrifenedig ac nad ydynt yn agored i drafodaeth ar gyfer iechyd a lles yn y cwricwlwm, a monitro bod y rhain yn cael eu gwneud, fod yn ddefnyddiol
- Gellir defnyddio monitro anghenion lles i helpu i ddatblygu'r cwricwlwm
- Gall addysg awyr agored helpu i ddatblygu cysylltiadau sy'n cefnogi dysgu

5.1.2 Cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd

- Cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd er mwyn pwysleisio ei bwysigrwydd fel rhan allweddol o'r cwricwlwm a diwylliant ac nid fel 'ychwanegyn'
- Defnyddio rhywfaint o amser dan gyfarwyddyd ar gyfer galwadau ffôn lles i rieni
- Amser dan gyfarwyddyd yn cael ei neilltuo i roi adborth cadarnhaol i ddysgwyr
- Cynnwys amser yn y cwricwlwm i ddysgwyr siarad, gwrandao a rhannu eu meddyliau a'u teimladau; gellir defnyddio dealltwriaeth o anghenion lles staff i ddatblygu'r cwricwlwm
- Gweithgorau gwella sy'n canolbwyntio ar les a'r cwricwlwm (e.e. Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd a oedd yn canolbwyntio ar les a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles)

5.1.3 Rhoi cyfleoedd a phrofiad i ddysgwyr

- Ystyried sut mae cyfle a phrofiad yn cysylltu ag iechyd a lles dysgwyr ac elfennau eraill o 4 diben y Cwricwlwm i Gymru
- Darparu profiad a chyfleoedd na fyddai dysgwyr yn eu cael fel arall
- Dangos llwybrau gyrfa i ddysgwyr nad ydynt efallai'n ymwybodol ohonynt
- Helpu dysgwyr i ddeall llwybrau cynnydd i yrfaoedd
- Defnyddio pobl leol a chyn-ddysgwyr fel modelau rôl
- Hyrwyddo llwybrau sy'n addas i bob dysgwr

- Wrth hyrwyddo llwybrau i addysg uwch, mynd â theuluoedd dysgwyr ar ymweliadau â'r brifysgol (gall teuluoedd fod yn amharod i ddysgwyr fynd i'r brifysgol os nad ydynt yn gyfarwydd â'r hyn mae'n ei olygu)
- Cysylltu â busnesau a diwydiannau lleol i drefnu cyfleoedd i ddysgwyr weld gwaith ar waith
- Helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer ceisiadau am swyddi a chyfweliadau

5.1.4 Ystyried goblygiadau darpariaeth ar y safle

- Lle nad oes darpariaeth amgen ar gael ar y safle, lliniaru effeithiau posibl ar ymdeimlad dysgwyr o berthyn

5.1.5 Sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn eithrio dysgwyr o wersi

- Defnyddio cyllid i sicrhau nad yw dysgwyr yn cael eu heithrio o'r cwricwlwm ar sail eu gallu i fforddio offer (e.e. coginio, cerddoriaeth, chwaraeon)
- Sicrhau bod pob dysgwr yn gallu cymryd rhan mewn gwersi beth bynnag fo'u hamgylchiadau economaidd

5.1.6 Ystyried beth mae dysgwyr yn ei ddeall am les

- Myfyrion ar sut mae dealltwriaeth o les yn newid wrth i ddysgwyr symud ymlaen drwy'r ysgol
- Ystyried sut mae dysgwyr yn deall lles

5.2 Gwneud cysylltiadau clir rhwng WSAEMWB a'r cwricwlwm

Gwnaeth rhai ysgolion gysylltiadau clir rhwng WSAEMWB a'r Cwricwlwm i Gymru, gan gynnwys Maes Dysgu a Phrofiad iechyd a lles. Mae gwneud penderfyniadau bwriadol am y cysylltiadau fel hyn yn debygol o helpu i ymgorffori'r WSAEMWB wrth gyflwyno'r cwricwlwm. Roedd enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Ysgrifennu disgwyliadau ar gyfer iechyd a lles yn y cwricwlwm, nad ydynt yn agored i drafodaeth, a monitro bod y rhain yn cael eu bodloni
- Defnyddio'r broses o fonitro anghenion lles i ddatblygu cwricwlwm
- Defnyddio addysg awyr agored i ddatblygu cysylltiadau sy'n cefnogi dysgu
- Cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd
- Ymrwymiad staff cymorth i WSAEMWB
- Helpu'r holl staff i ddeall pwysigrwydd WSAEMWB ar gyfer canlyniadau addysgol cadarnhaol
- Darparu hyfforddiant i gefnogi staff sy'n cyflwyno dulliau newydd

5.2.1 Enghraifft o ymarfer: anghenion lles yn hysbysu'r cwricwlwm

Defnyddiodd rhai ysgolion eu dealltwriaeth o anghenion y gymuned, a sut y newidiodd yr anghenion hynny, i hysbysu datblygiad y cwricwlwm. Anfonodd nifer o ysgolion a gymerodd ran yn yr ymchwil hwn arolygon at ddysgwyr a rhieni. Roedd canfyddiadau'r arolygon hyn yn bwydo i mewn i'r dealltwriaeth o faterion ac elfennau allweddol ar draws yr ysgol gyfan gan gynnwys, mewn rhai achosion, sut roedd y cwricwlwm yn mynd i'r afael â lles. Ym maes 1,

disgrifiwyd sut roedd ysgol K yn anfon arolygon at ddysgwyr a rhieni i ddatblygu eu dealltwriaeth o faterion allweddol cyfredol yn y gymuned, ac yna fe wnaethant ddefnyddio hyn i ailgynllunio'r cwricwlwm ar gyfer yr ychydig dymhorau dilynol i wneud yn siŵr bod pynciau cwricwlwm ac ABCh yn mynd i'r afael â materion a oedd yn bwysig yn y gymuned. Roedd hefyd yn disgrifio sut, yn ysgolion L a T, roedd y model seiliedig ar amser cylch yr oeddent wedi'i fabwysiadu a'i addasu yn caniatáu i ddealltwriaeth o les gael ei bwydo'n ôl i ddyluniad y cwricwlwm ac yn caniatáu i staff ddeall deinameg bresennol yr ystafell ddosbarth a allai effeithio ar reoli'r ystafell ddosbarth.

5.2.2 Enghraifft o ymarfer: dysgu yn yr awyr agored

Mae mynd â dysgwyr i fannau ar wahân i ysgolion nid yn unig yn ymwneud â chael mynediad at amgylchedd gwahanol, ond mae'n aml yn ymwneud â rhoi cyfle iddynt ddatblygu sgiliau gwahanol a dysgu mewn ffyrdd gwahanol. Mae cael mynediad at ddysgu yn yr awyr agored yn enghraifft dda o hyn, gyda llawer o ysgolion yn darparu mynediad at ddysgu yn yr awyr agored i ddysgwyr. Dylid ystyried defnyddio mannau awyr agored yn ofalus i sicrhau bod hynny'n rhagweithiol yn cefnogi anghenion lles dysgwyr a staff, a'r manteision y gallai eu cynnig o'u cymharu ag ystafell ddosbarth draddodiadol. Roedd gan Ysgol F ymarfer dysgu awyr agored wedi'i ystyried yn ofalus a oedd yn sail i lawer o'i chwricwlwm.

Treuliodd Ysgol F lawer o amser yn yr awyr agored gyda dysgwyr, ar ôl creu mannau gwahanol i annog garddio a thirlunio, yn ogystal ag ardaloedd heddychlon ar gyfer pan oedd angen amser tawel ar ddysgwyr. Roeddent hefyd wedi dynodi diwrnodau addysg awyr agored ac wedi cynllunio teithiau ysgol a oedd yn canolbwyntio ar fod y tu allan.

Roedd treulio amser yn yr awyr agored gyda'r dysgwyr yn creu'r cyfle i gael sggyrsiau 'mwy naturiol', a chanfu'r staff fod pobl ifanc yn agor mwy, o'i gymharu ag yn yr ystafell ddosbarth, a allai fod yn rhwystr i rai a oedd yn teimlo'n llai cyfforddus mewn lleoliad ffurfiol.

“Deg munud o gerdded a sgwrsio am nonsens llwyr, yna maent yn dod yn fwy agored ac mae'n tyfu i fod yn sgwrs sy'n fwy ystyrlon. Mae'n digwydd yn naturiol iawn. A'r cysylltiadau hynny ar ddiwrnodau a thripiâu addysg awyr agored yw sylfaen sut rydyn ni'n mynd ati i feithrin ein perthnasoedd.”

Yn aml, y manteision o fod yn yr awyr agored oedd meithrin perthnasoedd. Gallai gweithio gyda'n gilydd, ochr yn ochr, fod yn llai dwys na sgwrsio wyneb yn wyneb. Ynghyd â diben a rennir, gallai'r profiadau hyn helpu i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth. Disgrifiodd un athro yn ysgol F sut roeddent yn gweithio gyda dysgwyr nad oes ganddynt oedolion yn aml yn eu bywydau. Efallai y bydd y dysgwyr hyn yn teimlo eu bod yn rhy aeddfed ac yn rhy 'cŵl' i ateb i oedolyn, a gallai hyn rwystro meithrin perthynas. Fodd bynnag, pan oeddent y tu allan ac yn gwneud rhywbeth anghyfarwydd a brawychus (e.e. syrffio, dringo), roedd adeg weithiau pan oedd angen iddynt ddibynnu ar oedolyn ac roedd staff yno i fod yr oedolyn hwnnw. Rhoddodd hyn foment o ddibyniaeth, cysylltiad ac ymddiriedaeth y gellid adeiladu arni wrth symud ymlaen.

5.3 Cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd

Pwysleisiwyd yn gryf bod cynnwys lles mewn amser dan gyfarwyddyd yn bwysig i staff. Dangosodd weithgarwch lles nid fel 'ychwanegyn' ond fel gweithgarwch disgwyledig ac fel rhan allweddol o'r cwricwlwm a diwylliant. Roedd enghreifftiau o'r ffyrdd y mae ysgolion yn gwneud hyn yn cynnwys:

- Defnyddio rhywfaint o amser dan gyfarwyddwyd i staff wneud galwadau ffôn lles i rieni (e.e. ysgolion A, L)
- Amser dan gyfarwyddyd wedi'i neilltuo ar gyfer rhoi adborth cadarnhaol i ddysgwyr (e.e. Gwener o Ganmol, ysgol K)
- Cynnwys 'mannau ar gyfer rhannu' (h.y. amser yn ystod y diwrnod ysgol i ddysgwyr siarad, gwrando a rhannu eu meddyliau a'u teimladau) yn rhan o'r cwricwlwm; gellir defnyddio dealltwriaeth staff o'r angen am les i ddatblygu'r cwricwlwm, fel sy'n cael ei drafod ym maes 1
- Cynhaliwyd Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd yn ysgol K, a ddisgrifir isod, yn ystod amser dan gyfarwyddyd

Roedd ychwanegu gweithgarwch WSAEMWB at amser dan gyfarwyddyd yn golygu bod angen cefnogaeth uwch arweinwyr i liniaru ei effeithiau ar lwyth gwaith. Mae cefnogi staff o ran cyflwyno'r cwricwlwm, gan gynnwys helpu gydag amser a llwyth gwaith, yn cael ei archwilio ymhellach ym maes 4. Roedd Ysgol K wedi creu Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd, a oedd yn enghraifft o ymarfer a oedd yn gwneud cysylltiadau cryf rhwng WSAEMWB a'r cwricwlwm ac yn cynnwys gweithgarwch lles mewn amser dan gyfarwyddyd i gynnal proffil uchel lles ac annog staff i ymrwymo iddo.

5.3.1 Enghreifftiau o ymarfer: Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd

Roedd staff yn ysgol K wedi cynnwys WSAEMWB yn y cwricwlwm mewn gwahanol ffyrdd. Model defnyddiol o ymarfer oedd datblygu Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd. Roedd y rhain yn cynnwys Grwpiau o staff o bob cyfnod cynradd ac uwchradd, ac o amrywiaeth o rolau, gan ffurfio gweithgorau gwella a oedd yn canolbwyntio ar wella ysgolion mewn ffordd sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau datblygu'r ysgol. Roedd y grwpiau hyn yn gweithredu ar draws yr ysgol mewn meysydd fel llythrennedd, rhifedd a sgiliau digidol, gydag un hefyd yn canolbwyntio ar les a'r Maes Dysgu a Phrofiad Lles. Gweithiodd y grwpiau gwella hyn ar y cyd ar flaenoriaethau'r ysgol yn eu maes ffocws, gan ddatblygu dealltwriaeth a gweithgarwch. Roedd amseroedd cyfarfod Grwpiau Datblygu Ymarfer ar y Cyd yn cael eu cynnwys mewn amser dan gyfarwyddyd unwaith y mis ac roedd rhywfaint o amser HMS hefyd yn cael ei neilltuo ar eu cyfer. Roedd hyn yn pwysleisio eu gwerth ac yn helpu i sicrhau nad oedd staff yn ei weld fel rhywbeth 'ychwanegol' ond fel rhan o'u rôl. Ar ddiwedd pob tymor, roedd arddangosfa lle'r oedd pob grŵp yn cyflwyno'r hyn roeddent wedi'i wneud, yr hyn a dreialwyd ac a brofwyd a sut y gellid cyflwyno hyn ar draws yr ysgol. Roedd cael Grŵp Datblygu Ymarfer Lles ar y Cyd yn cynnal proffil uchel y pwnc drwy gael grŵp pwrpasol i ddatblygu a hyrwyddo gweithgarwch lles a darparu adborth rheolaidd i staff. Roedd hefyd yn annog ymrwymiad staff mewn ysgol lle mae lles yn sail i'r rhan fwyaf o weithgarwch. Roedd hefyd yn cynyddu gweithio a pherthnasoedd ar draws ysgolion a chyfnodau.

5.4 Rhoi cyfleoedd a phrofiad i ddysgwyr

Soniodd sawl ysgol am bwysigrwydd creu ac amlygu dysgwyr i gyfleoedd a phrofiadau ystyrion. Mae Cwricwlwm i Gymru yn cysylltu'r syniad o iechyd a lles unigolion â dibenion y cwricwlwm fel bod yn ddinasyddion annibynnol, hyderus a gwybodus sy'n barod i fyw bywydau llawn. Felly, mae cynnig cyfleoedd a phrofiadau i ddysgwyr sydd wedi'u cynllunio i helpu i gyflawni 4 diben y cwricwlwm yn werthfawr a gall helpu i greu cysylltiadau rhwng WSAEMWB a'r Cwricwlwm i Gymru. Wrth ddatblygu a chynnal WSAEMWB, gallai fod yn ddefnyddiol i ysgolion ystyried sut mae cyfle a phrofiad yn cysylltu ag iechyd a lles dysgwyr yn ogystal ag elfennau eraill o'r 4 diben. Mae hyn yn arbennig o bwysig mewn cymunedau lle mae llawer, y rhan fwyaf neu'r holl ddysgwyr yn debygol o gael cyfleoedd cyfyngedig iawn.

Weithiau, roedd ysgolion yn darparu profiadau i ddysgwyr nad oeddent efallai wedi'u cael y tu allan i'r ysgol. Er enghraifft, yn ystod yr ymweliad astudiaeth achos ag un ysgol, roedd dysgwyr ifanc yr ysgol gynradd yn ymweld â'r traeth am y diwrnod, a llawer ohonynt heb fod erioed o'r blaen. Roedd ysgolion hefyd yn cynnig cyfle i ddysgwyr fynychu clybiau yn ystod y diwrnod ysgol a oedd yn rhoi mynediad iddynt at amrywiaeth o sgiliau a gweithgareddau yr aeth rhai ohonynt ymlaen i'w defnyddio y tu allan i'r ysgol (e.e. ymuno â thimau pêl-droed a allai hyrwyddo lles corfforol a meddyliol yn ogystal â chysylltiad cymunedol). Roedd gwybodaeth am eu cymuned wedi helpu ysgol B i fynd i'r afael â bylchau posibl yn lles eu dysgwyr. Roedden nhw'n deall efallai na fyddai gan ddysgwyr fynediad at glybiau chwaraeon a llawer o fannau gwyrdd y tu allan i'r ysgol, felly roedden nhw'n blaenoriaethu'r mannau ffisegol a'r gweithgareddau hyn ar gyfer clybiau yn ystod amser egwyl, amser cinio ac ar ôl ysgol.

Weithiau roedd ysgolion yn canolbwyntio ar y syniad "os nad ydych chi'n ei weld, allwch chi ddim ei brofi", gan roi cyfleoedd i ddysgwyr weld posibiliadau ar gyfer gyrfaedd yn y dyfodol a llwybrau at gyflawni'r posibiliadau hynny. Gall hyn fod yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd lle mae cyfraddau diweithdra uchel ar draws cenedlaethau, oherwydd amgylchiadau economaidd lleol. Disgrifir enghreifftiau o sut mae gwahanol ysgolion wedi darparu'r mathau hyn o gyfleoedd i ddysgwyr yn yr enghreifftiau isod ac maent yn cynnwys:

- Dangos amrywiaeth o lwybrau gyrfa i ddysgwyr mewn gwahanol sectorau
- Helpu dysgwyr i ddeall llwybrau cynnydd i yrfaedd
- Defnyddio pobl leol a chyn-ddysgwyr fel modelau rôl
- Gan gynnwys llwybrau sy'n addas i'ch holl ddysgwyr, er enghraifft:
 - Helpu dysgwyr i weld llwybrau i Addysg Uwch (AU), yn enwedig mewn ardaloedd lle nad oes llawer o bobl wedi mynd i'r brifysgol yn draddodiadol. Gallai hyn gynnwys mynd â theuluoedd ar ymweliadau prifysgol gyda dysgwyr gan y gall rhai teuluoedd fod yn amharod i'w plentyn fynd i'r brifysgol oherwydd nad ydynt yn gyfarwydd â'r hyn y mae'n ei olygu; gall dangos manteision

- llwybrau AU a pha mor gyraeddadwy ydynt helpu rhai dysgwyr i deimlo eu bod yn gallu dilyn y llwybr hwn
 - Darparu cyrsiau galwedigaethol ar gyfer swyddi crefft, yn enwedig y rheini y mae galw amdanynt yn lleol
- Cysylltu â busnesau a diwydiannau lleol i drefnu cyfleoedd i ddysgwyr weld gwaith ar waith
- Helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer ceisiadau am swyddi a chyfweliadau

5.4.1 Enghraifft o ymarfer: chwalu rhwystrau a dangos posibiladau

Roedd Ysgol K mewn ardal o anfantais a diffyg cyfleoedd o genhedlaeth i genhedlaeth, gan gynnwys economi leol anodd. Dywedodd staff fod dysgwyr a theuluoedd yn brin o gyfleoedd a chanfu staff nad oedd teuluoedd weithiau'n gweld nac yn credu yn y posibiladau y gallai llwybrau dysgwyr ar ôl ysgol eu cynnig. Siaradodd y staff am greu amgylchedd o 'ddyhead' ar gyfer dysgwyr drwy ddangos gyrfaedd posibl, llwybrau cynnydd, modelau rôl lleol a chyflawniadau dysgwyr y gorffennol iddynt. Roeddent yn ceisio dangos llwybrau gyrfa i ddysgwyr na fyddent efallai wedi bod yn ymwybodol ohonynt fel arall. Dangoswyd hyn yn null yr ysgol o gyflwyno'r syniad o fynd i'r brifysgol i ddysgwyr. Mewn ardal lle nad oedd llawer o bobl wedi mynd i'r brifysgol yn draddodiadol, gallai teuluoedd fod yn amharod i'w plentyn fynd i'r brifysgol oherwydd nad oeddent yn gyfarwydd â'r hyn y mae'n ei olygu neu oherwydd canfyddiad nad oedd yn werth chweil neu nad oedd modd ei gyflawni (e.e. yn rhy ddud). Dywedodd staff efallai nad oedd hynny hyd yn oed wedi bod ar radar y teulu fel posiblwydd. Canfu'r ysgol hefyd fod rhai dysgwyr a oedd â diddordeb yn y brifysgol yn cael eu datgymell gan eu teuluoedd. Felly, tynnodd yr ysgol sylw at lwybrau prifysgol a dangos i ddysgwyr beth roedd angen iddynt ei wneud i fyny. Yn hollbwysig, pan aethant â dysgwyr ifanc hyd yn oed i weld prifysgolion, aethant â'u teuluoedd hefyd er mwyn iddynt allu gweld ei fod yn rhywbeth y gellid ei gyflawni a sut y gellid ei gyflawni.

Roedd yr ysgol hefyd yn ymwybodol na fyddai'r llwybr addysg uwch yn apelio at lawer o'u dysgwyr. Mewn ymateb i geisiadau dysgwyr am wybodaeth am lwybrau nad ydynt yn rhai prifysgol, roeddent yn darparu cyrsiau a chymwysterau galwedigaethol gan gynnwys gosod brics, trydanol, gwaith coed, teilsio, plastro, a phaentio ac addurno. Roedd gan lawer o'r cyrsiau hyn y potensial i ddarparu cyflogaeth sgiliau uchel sy'n talu'n gynyddol dda ac roedd galw amdanynt yn lleol hefyd. Fe wnaethon nhw egluro llwybrau at yrfaedd amrywiol a chwilio am gyfleoedd gyda busnesau a diwydiant lleol. Er enghraifft, roedden nhw'n arfer mynd â dysgwyr yn rheolaidd i safle prosiect seilwaith lleol hirdymor ar raddfa fawr a oedd yn gysylltiedig â llawer o grefftau. Cyfarfu'r dysgwyr â staff allweddol a gwyllo cynnydd y prosiect, gan eu cyflwyno i amrywiaeth eang o yrfaedd posibl ym maes adeiladu a meysydd cysylltiedig.

5.4.2 Enghraifft o ymarfer: dangos posibiladau

Gellid gweld pwysigrwydd cynnwys cymunedau a theuluoedd wrth ddatblygu WSAEMWB yn y gwaith a wnaed gan staff addysgu yn ysgol F. Roedd Ysgol F yn ysgol arbennig a oedd yn derbyn dysgwyr o ardal ddaearyddol eang a gyda lefelau uchel o amddifadedd ymysg ei disgyblion a'u teuluoedd. Roedd llawer o'u dysgwyr wedi cael trafferth mewn ysgol brif ffrwd ac, yn y

gorffennol, nid oedd llawer o ddysgwyr wedi mynd ymlaen i gyflogaeth. Felly, un o nodau allweddol y staff oedd annog dysgwyr i gael gwaith. Rhan o hyn oedd canolbwyntio ar sgiliau dysgwyr, ond hefyd gweithio gyda busnesau lleol i ddangos pa gyfleoedd allai fod ar gael iddynt. Roedd garejys, peirianyddion, pobl sy'n trin a thwtio cŵn, caffis, bwytai, pob math o fusnesau wedi helpu drwy ymweliadau a chynnig profiad gwaith.

“O ran dyheadau, rydyn ni'n ceisio cael pobl i ymweld, neu bydden ni'n ceisio ymweld â gweithwyr proffesiynol, i siarad am y diwydiant adeiladu ac ati, i roi rhyw syniad iddyn nhw o'r hyn y gallan nhw ei gyflawni a'i glywed o lygaid y ffynnon”

Ar ben hynny, roedd staff wedi helpu dysgwyr i baratoi ar gyfer a mynd i gyfweiliadau am swyddi, ac os oeddent yn llwyddiannus roeddent yn cynnig rhagor o gymorth fel helpu dysgwyr gyda'u trwydded yrru dros dro, cael eu dogfennau adnabod, agor cyfrif banc a helpu dysgwyr i ddysgu sut mae dal bws ar gyfer teithio'n annibynnol.

Roedd yn ymddangos bod y cyfleoedd hyn wedi bod yn ysgogol i ddysgwyr a dywedodd yr ysgol fod yr ymdrechion hyn wedi cael eu gwobrwyo gyda chynnydd yng nghyfran y dysgwyr sy'n mynd ymlaen i gyflogaeth neu addysg bellach.

5.5 Ystyried goblygiadau darpariaeth ar y safle

Nododd rhai cyfranogwyr, lle'r oedd angen darpariaeth amgen ar ddysgwyr, y gallai eu hanfon at ddarparwyr allanol danseilio ymdeimlad o berthyn i'r ysgol. Roedd creu'r ddarpariaeth hon ar y safle yn debygol o helpu i gadw'r dysgwyr hyn mewn cysylltiad â chymuned yr ysgol.

Er bod enghreifftiau da o ddarpariaeth ar y safle, roedd y gallu i ymgymryd â'r arfer hwn yn dibynnu ar faint a chyllideb yr ysgol. Eglurodd rhai ysgolion bach y byddai'n amhosibl iddynt sicrhau bod darpariaeth amgen ar y safle. Mae'n bwysig cydnabod hyn a, phan fydd dysgwyr yn mynd oddi ar y safle am ddarpariaeth amgen am rywfaent o'r amser, dylai ysgolion fod yn ymwybodol y gallai hyn danseilio eu hymdeimlad o berthyn, a rhoi arferion ar waith i geisio cynnal ymdeimlad o berthyn. Mae'n ymddangos bod canolbwyntio ar feithrin cysylltiadau rhwng y dysgwyr hyn a dysgwyr eraill a staff yn bwysig i helpu hyn.

5.6 Sicrhau nad yw fforddiadwyedd yn eithrio dysgwyr o wersi

Mae canllawiau Cwricwlwm i Gymru yn nodi'n glir bod yn rhaid i'r cwricwlwm ysgol fod yn gynhwysol i bob dysgwr. Er mwyn helpu i fynd i'r afael â hyn, defnyddiodd rhai ysgolion gyllid (e.e. PDG) i sicrhau nad oedd dysgwyr yn cael eu heithrio'n anfwriadol o'r cwricwlwm ar sail eu gallu i fforddio offer. Er enghraifft, rhan o ethos ysgol K oedd yr egwyddor na ddylai unrhyw blentyn boeni am fynediad na darpariaeth.

Roedd enghreifftiau o'r ffordd y defnyddiwyd cyllid i greu cwricwlwm mwy cynhwysol ar draws ysgolion yn cynnwys:

- Talwyd am yr holl gynhwysion ar gyfer gwersi coginio. Y cyfan roedd raid i ddysgwyr ei wneud oedd mynd yno, ac roeddent yn gallu coginio. Dywedodd un ysgol ei bod yn bwysig cofio y gallai gofyn i deuluoedd dalu am gynhwysion greu gofynion ychwanegol, 'cuddiedig', yn enwedig costau amser a chludiant i fynd i'r siop
- Talwyd am ddarpariaeth gerddoriaeth
- Darparwyd offer chwaraeon (e.e. darparwyd hyfforddwyr er mwyn i'r holl ddysgwyr allu defnyddio'r cae 4G newydd)

Roedd dysgwyr cyfnod uwchradd yn ysgol K, a oedd hefyd ar y Cyngor Ysgol, yn cydnabod bod y math hwn o gymorth yn cael ei ddarparu i ddysgwyr ac yn ei werthfawrogi, gydag un yn cyfeirio at wersi cerddoriaeth, "Rwy'n hoffi'r cyfleoedd maen nhw'n eu rhoi i ni, er enghraifft rydyn ni'n cael gwersi cerddoriaeth ac maen nhw am ddim ar gyfer pob offeryn. Felly gallwn gofrestru pryd bynnag y dymunwn, os oes lle ar gael. Mae'n gyfle da iawn."

Tynnodd Ysgol K sylw hefyd at bwysigrwydd cyfalaf diwylliannol. Roedd hyn yn cynnwys sicrhau nad oedd dysgwyr yn cael eu heithrio ar sail eu profiad a'u gwybodaeth. Er enghraifft, bydden nhw'n disgwyl i staff beidio â gosod tasg fel 'ysgrifennu am fynd ar awyren' gan eu bod yn gwybod nad yw llawer o ddysgwyr wedi bod ar un.

5.7 Ystyried sut mae dysgwyr yn deall lles

Gall fod yn ddefnyddiol meddwl am gynnydd o ran sut mae dealltwriaeth dysgwyr o les yn newid wrth iddynt ddatblygu.

Er enghraifft, pan ofynnwyd iddynt am les, crybwyllodd dysgwyr ysgolion cynradd mewn un ysgol eiriau fel 'iechyd' a 'lles' ond heb ymhelaethu. Roeddent i gyd wedi cael eu dewis gan staff i fod yn rhan o glwb lles i roi cyfleoedd iddynt na fyddent o bosibl yn eu cael mewn mannau eraill. Er eu bod wedi nodi bod eu rhyngweithio a'u gweithgareddau yn hwyl, nid oeddent eto mewn sefyllfa lle gallent gysylltu hyn â lles.

Fodd bynnag, roedd dysgwyr ysgolion uwchradd, ac aelodau o gyngor yr ysgol, yn yr un ysgol pob oed, yn deall ac yn disgrifio lles yn llawnach. Buont yn siarad am wahaniaeth rhwng lles corfforol a meddyliol. Roedd yr esboniad o les yn canolbwyntio ar deimladau ac emosiynau a sut y gallai'r rhain effeithio ar y gallu i ymgysylltu a pherfformio. Roedd dysgwyr mewn ysgol uwchradd arall yn canolbwyntio ar esbonio lles o ran pwysigrwydd gwybod ble i gael help gan mai ffocws eu grŵp oedd cefnogi dysgwyr eraill.

Dylid cydnabod bod y trafodaethau hyn yn y ddwy ysgol uwchradd gyda dysgwyr a oedd yn aelodau o gyngor yr ysgol neu glybiau lles, felly efallai nad ydynt yn cynrychioli dealltwriaeth gyfartalog. Fodd bynnag, mae'r canfyddiadau'n awgrymu y dylai ysgolion, fel rhan o'u WSAEMWB, fyfyrion ar ba mor effeithiol a phriodol yw deall beth yw lles, a bod hynny wedi'i gynnwys yn y cwricwlwm. Gallai hyn gynnwys deall sut mae dealltwriaeth o les yn newid yn natblygiad dysgwr. Roedd adborth mewn un gweithdy yn cefnogi'r

awgrym hwn, gyda chyfranogwr yn dweud pan fydd yn gweithio gydag ysgolion:

“Rydw i'n aml yn gofyn i ddisgyblion, neu beth mae eich ysgol yn ei wneud i'w gwneud hi'n ysgol iach, a byddan nhw'n rhoi cynnig ar bethau fel, rydyn ni'n cael dŵr ar ein desgiau, mae gennym ffrwythau iach ar gyfer yr egwyl, a byddan nhw'n rhannu rhai enghreifftiau. Ond dydw i ddim yn siŵr a ydyn nhw'n deall pam. Felly, byddan nhw'n gwybod beth maen nhw'n ei wneud i'w gwneud yn ysgol iach, ond mae'n bwysig deall pam mae'r pethau rydyn ni'n holi amdany'n nhw'n bwysig.

6. Maes ymarfer 4: cefnogi lles staff

6.1 Cyflwyniad

Yn ystod y cam cwmpasu, dywedodd cyfranogwyr fod lles emosiynol a meddyliol y gweithlu addysg yng Nghymru yn isel a bod gweithgarwch yn y maes hwn yn debygol o gael ei groesawu a chael canlyniadau cadarnhaol i staff a dysgwyr fel rhan o WSAEMWB. Canfu'r cam cwmpasu amrywiaeth o ymchwil a oedd yn awgrymu bod gwella lles staff hefyd yn helpu i wella lles dysgwyr. Ategwyd hyn gan gyfranogwyr yn y gweithdy ysgolion, yr astudiaethau achos a'r gweithdai adborth; roedd lles staff yn cael ei ystyried yn bwysig ynddo'i hun ac er mwyn helpu i greu amgylchedd lle'r oedd staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, bod rhywun yn gwrando arnynt a bod ganddynt les meddyliol da sy'n golygu eu bod mewn sefyllfa dda i gefnogi dysgwyr a'r WSAEMWB.

Gall rhai arferion sy'n cefnogi lles staff fod yn gyflymach i'w rhoi ar waith nag eraill. Roedd rhai staff o'r farn bod yr 'atebion cyflym' hyn (e.e. darparu te a choffi mewn ystafelloedd staff) yn ddefnyddiol. Roedd eraill yn eu hystyried yn 'gimig' ac yn teimlo mai dim ond drwy ddarparu amgylchedd proffesiynol, cefnogol a phriodol ar gyfer addysgu a dysgu y gellir gwella lles staff. Fodd bynnag, fel yr awgrymwyd gan nifer o gyfranogwyr, mae'n debygol ei bod yn bwysig defnyddio cyfuniad o ymarfer fel rhan o ddull cyfannol o ymdrin â lles staff. Mae'r enghreifftiau yn yr adran hon yn cynnwys ymarfer yr adroddodd ysgolion ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer gwella lles staff. Mae enghreifftiau o ysgol A yn ymddangos sawl gwaith oherwydd eu bod wedi gweithio i wella lles staff ar draws sawl rhan o'r ysgol fel rhan o WSAEMWB, gan gynnwys cysylltu hyn â'r cwricwlwm a gwell strategaethau addysgu a dysgu. Mae Tabl 5 yn crynhoi'r ymarfer sy'n cael sylw yn yr adran hon.

Crynodeb o'r ymarfer fesul thema sy'n cael sylw ym maes 4

6.1.1 Darparu te, coffi a byrbrydau

- Defnyddio cyllideb yr ysgol i ddarparu te, coffi a byrbrydau
- Ystyried goblygiadau byrbrydau afiach ar negeseuon ysgol gyfan

6.1.2 Cynnal gweithgareddau lles staff

- Cynnal gwahanol fathau o weithgareddau lles ond cofiwch efallai na fydd pob aelod o staff yn mwynhau hyn
- Cytuno ar bwrpas, fformat a chynnwys gweithgaredd lles gyda staff
- Chwilio am gyllid neu gysylltiadau â busnesau lleol i gefnogi'r gweithgareddau hyn
- Defnyddio arbenigedd a sgiliau staff i gynnal sesiynau

6.1.3 Darparu cefnogaeth bersonol 1-i-1 i staff

- Cymorth a chyngor allanol gan weithwyr proffesiynol (e.e. cyllid, cwnsela)
- Yr Uwch Dîm Arwain yn darparu ac yn cyfeirio at gymorth
- Polisi drws agored SLT
- Sesiynau galw heibio dynodedig ar gyfer staff

- Cymorth galw heibio ar gyfer arweinwyr lles
- Darparu cymorth lles i benaethiaid

6.1.4 Cyfeirio at wybodaeth am les

- E-bostio gwybodaeth at staff
- Posterï yn yr ystafell athrawon / o amgylch yr ysgol
- Mae'n debyg mai siop un stop ar gyfer gwybodaeth am les yw'r arfer mwyaf effeithiol
- Siopau un stop digidol sydd fwyaf defnyddiol (e.e. creu Google Classroom / Padlet)
- Neilltuo unigolyn neu dîm i fod yn gyfrifol am reoli'r siop un stop

6.1.5 Caniatáu amser o'r gwaith i staff am resymau teuluol

- Caniatáu i staff gael amser o'r gwaith i fynd i apwyntiadau a allai helpu eu hiechyd meddwl a'u lles eu hunain
- Rhoi amser i ffwrdd i staff fynychu digwyddiadau ysgol eu plant eu hunain
- Caniatáu hyblygrwydd wrth ddefnyddio amser Cynllunio, Paratoi ac Asesu (CPA)

6.1.6 Creu amgylchedd sy'n cefnogi addysgu a dysgu

- Polisiâu ac arferion rheoli ymddygiad priodol
- Sicrhau bod staff yn gwybod bod uwch arweinwyr yn gefnogol pan fyddant yn rhoi polisiâu ac arferion ymddygiad ar waith
- Mabwysiadu modelau addysgu a dysgu ysgol gyfan o ansawdd uchel

6.1.7 Cymorth gyda llwyth gwaith

- Marcio llyfrau wedi'i ddisodli gan fodel adborth deinamig, byw
- Llai o waith adrodd i athrawon dosbarth
- Llai o farcio arholiadau y tu allan i oriau
- Wythnosau pan fydd cyfarfodydd y tu allan i oriau yn cael eu canslo
- Gwneud prosesau Sicrhau Ansawdd yn llai beichus
- Gwneud yn siŵr bod pwrpas i bob gweithgaredd (osgoi ticio blychau)

6.1.8 Darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus

- Cefnogi staff gydag ymrwymiad i hyfforddiant a Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

6.1.9 Ailgynllunio ystafelloedd staff i gefnogi lles

- Ailgynllunio ystafelloedd staff i ganolbwyntio ar orffwys yn hytrach na gwaith
- Dylunio ystafelloedd staff i annog rhyngweithio
- Darparu cyfleusterau ar gyfer storio a pharatoi bwyd
- Cysylltu â darparu te, coffi a byrbrydau

6.1.10 Creu lle ar gyfer CPA

- Creu gofod CPA ffisegol pwrpasol
- Creu rheolau i sicrhau na chaniateir tarfu ar staff sy'n gwneud CPA
- Hyblygrwydd o ran lle caniateir i staff wneud CPA (e.e. oddi ar y safle)

6.1.11 Llais y staff

- Gadael i staff fynegi eu meddyliau a'u pryderon gan ddefnyddio dulliau sy'n briodol i'r ysgol a'r unigolion dan sylw
- Ystyried a gweithredu ar yr hyn y mae staff yn ei ddweud
- Cyfathrebu ymatebion yn glir a defnyddio dulliau sy'n briodol i'r ysgol (e.e. "fe ddywedoch chi, fe wnaethon ni...")
- Ffurflenni "Hoffwn i fy SLT wybod..."

6.2 Darparu te, coffi a byrbrydau

Dywedodd Ysgolion F, K a P eu bod wedi defnyddio cyllideb yr ysgol i roi te, coffi a byrbrydau i staff. Pan fydd byrbrydau'n cynnwys eitemau afiach fel cacennau neu fisgedi, gall greu tensiynau gyda'r syniad o fodelu ymddygiad bwyta'n iach fel rhan o ddull ysgol gyfan. Fodd bynnag, teimlai ysgolion fod yr arwyddion bach hyn yn gwneud i staff deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac y buddsoddir ynddynt. Mewn ysgolion a oedd yn gwneud hyn, roedd staff yn sicr fel petaent yn ei werthfawrogi. Lle cânt eu mabwysiadu, efallai y bydd angen i ysgolion ystyried sut maent yn rheoli'r cydbwysedd rhwng gwerthfawrogiad staff o fyrbrydau a negeseuon ysgol gyfan.

Fodd bynnag, efallai na fydd hyn yn bosibl i bob ysgol ei gyflawni oherwydd penderfyniadau a blaenoriaethau cyllido lleol, fel y nodwyd gan ysgolion E ac W a ddywedodd nad oedd hyn yn opsiwn ar gyfer eu lleoliad. Dylai ysgolion sy'n ystyried prynu bwyd a diod i staff o gyllideb yr ysgol fod yn sicr beth mae rheolau ariannol lleol yn ei ganiatáu.

6.3 Cynnal gweithgareddau lles staff

Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn teimlo ei bod yn ddefnyddiol cynnal gweithgareddau lles ar gyfer staff. Weithiau roedd y rhain yn rhan o HMS. Ar adegau eraill roeddent y tu allan i oriau ysgol. Cynhaliodd un ysgol 'Dyddiau Mercher Lles' gan eu bod yn gweithio oriau estynedig ganol yr wythnos. Roedd y gweithgareddau'n tueddu i fod yn sesiynau cymharol fyr, yn gwneud pethau a oedd yn aml yn greadigol neu'n cynnwys gweithgarwch corfforol. Roedd enghreifftiau o weithgarwch lles o bob ysgol yn cynnwys: chwarae gemau, coginio, ioga, sgitts, gwneud torchau gyda ioga, nofio/sawna/stêm am ddim yn y ganolfan hamdden leol a grwpiau cerdded.

Cynigiodd Ysgol F weithgareddau hirach i staff, gyda'r opsiwn i optio i mewn i bethau fel tripiâu dydd, Tough Mudder neu deithiau penwythnos, gydag un aelod o staff yn dweud "rydyn ni'n mynd i Faenorbŷr y penwythnos hwn fel staff. Rydyn ni'n mynd ar y traeth drwy'r dydd ac yna'n aros yn yr hostel ieuenctid".

Nod gweithgareddau fel y rhain yw darparu lle i ymlacio, yn aml yn ystod amser dan gyfarwyddyd. Ond efallai y bydd ysgolion yn gweld eu bod hefyd yn gallu helpu i feithrin perthnasoedd a chysylltedd rhwng staff. Fel y dywedodd aelod o staff ysgol K: “Mae'n rhoi'r amser i chi gysylltu â'ch cydweithwyr a pheidio â siarad am waith a chynllunio a phethau felly.” Gan fod ysgol K yn ysgol pob oed (3-18), roedd y gweithgareddau hyn hefyd yn helpu i ddatblygu cysylltiadau ar draws safleoedd y cyfnod cynradd ac uwchradd.

Fodd bynnag, dylai ysgolion fod yn ymwybodol nad yw pob aelod o staff yn hoffi'r math hwn o weithgaredd. Efallai y bydd rhai yn teimlo eu bod yn cael eu gorfodi i wneud rhywbeth y byddai'n well ganddynt beidio â'i wneud, a allai gael effaith niweidiol ar les. Gall fod yn ddefnyddiol cytuno ar bwrpas, fformat a chynnwys gweithgaredd lles gyda staff. Gall hefyd fod yn bwysig deall negeseuon ynghylch gweithgarwch lles. Er enghraifft, canolbwyntiodd un ysgol ar les yn ystod diwrnod HMS. Roedd y bore'n cynnwys sgwrs ar sail tystiolaeth am les yn yr ysgol, ac roedd y prynhawn yn cynnwys gwahanol weithgareddau lles y gallai staff optio i mewn iddynt. Er bod rhai staff yn cofio'r gweithgaredd lles yn gadarnhaol, dywedodd eraill eu bod yn teimlo nad yw “graffau'n teimlo fel lles”. Mae hyn yn dangos pwysigrwydd anfon negeseuon a bod yn ymwybodol o ganfyddiad staff.

Archwiliodd ysgolion amrywiol lwybrau cyllido i helpu i dalu am gost gweithgareddau fel y rhain ac fe wnaethant ddatblygu cysylltiadau â busnesau lleol i helpu i ddarparu mynediad at weithgareddau. Roedd rhai ysgolion hefyd yn defnyddio arbenigedd staff neu hobiau i gynnal sesiynau lles. Pan fydd staff yn awyddus i wneud hyn, gall hefyd ychwanegu at eu hymdeimlad eu hunain o werth yng nghymuned yr ysgol.

6.4 Darparu cefnogaeth bersonol 1-i-1 i staff

Mae'n hanfodol bod staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ar gyfer eu lles. Gall darparu cymorth 1-i-1 i staff helpu. Bydd llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhyw lefel o gefnogaeth. Dyma rai enghreifftiau y gellid eu haddasu ar gyfer pob math o ysgol:

- Cymorth a chyngor allanol gan weithwyr proffesiynol (e.e. cyllid, cwnsela)
- Mae'r SLT yn darparu ac yn cyfeirio at gymorth (gweler gwrandao ar staff am enghreifftiau)
- Mae polisi drws agored SLT yn golygu y gall staff gael cymorth pan fydd ei angen arnynt
- Sesiynau galw heibio dynodedig ar gyfer staff
- Cymorth galw heibio ar gyfer arweinwyr lles

Roedd enghreifftiau o gymorth proffesiynol a ddarparwyd i staff yn cynnwys ysgolion L a T a ddaeth ag asiantaethau allanol i mewn i helpu staff i ddeall sut i ofalu am eu hiechyd a'u lles eu hunain (e.e. hunanatgyfeirio at ffisiotherapyddion a nyrsys). Gwnaed hyn fel rhan o amser dysgu proffesiynol a oedd yn tynnu sylw at les personol fel rhywbeth pwysig i'r gwaith. Oherwydd y gallai fod yn anodd cael apwyntiadau gyda meddyg teulu, roeddent hefyd yn

rhedeg cynllun lle'r oeddent yn dod â nyrsys i'r ysgol a gallai staff drefnu apwyntiadau gyda nhw.

Awgrymodd gweithdai adborth mai maes sydd ar goll yn ôl pob tebyg wrth drafod y WSAEMWB yw cefnogaeth i benaethiaid, sy'n allweddol i ddull gweithredu WSAEMWB. Awgrymodd y cyfranogwyr mai penaethiaid sydd leiaf tebygol o gael gafael ar gymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles, er gwaethaf gofynion eu rôl. Dylid ystyried cymorth lles i'r pennaeth fel rhan hanfodol o'r WSAEMWB. Gall cyfarfodydd y corff llywodraethu a'r penaethiaid clwstwr chwarae rhan bwysig yn y gwaith o gefnogi'r pennaeth (e.e. cyfarfodydd penaethiaid clwstwr). Mae gan gymorth allanol (e.e. cydlynwyr, cwnselwyr) rôl i'w chwarae hefyd.

6.5 Cyfeirio at wybodaeth am les

Awgrymodd y cyfranogwyr bwysigrwydd cyfeirio staff at wybodaeth am les. Yn ogystal â gwybodaeth am WSAEMWB, roedd hyn yn cynnwys gwybodaeth i gefnogi lles staff eu hunain. Roedd enghreifftiau o ddulliau rhannu gwybodaeth am les yn cynnwys:

- E-bostio gwybodaeth at staff
- Poster yn yr ystafell athrawon / o amgylch yr ysgol
- Siop un stop ar gyfer gwybodaeth lles ar adran staff gwefan yr ysgol, sydd ar gael pan fo angen
- Creu Google Classroom / Padlet i rannu gwybodaeth

Mae'n bwysig bod ysgolion yn deall dewisiadau cyfathrebu staff. Y rheswm am hyn, fel y nodwyd yn y gweithdai adborth, yw bod cymaint o wybodaeth yn cael ei rhoi i staff fel bod cael un lle hygyrch iddynt ddod o hyd i wybodaeth am les yn hawdd yn golygu bod gwybodaeth yn llai tebygol o gael ei cholli. Dywedodd ysgolion, lle'r oedd gwybodaeth yn cael ei darparu ar sail ad hoc (e.e. drwy aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn cyfeirio at adnoddau) neu mewn gwahanol leoedd, y gallai fod yn ddryslyd. Am y rheswm hwn, efallai mai creu siop un stop ar gyfer gwybodaeth am les yw'r arfer mwyaf effeithiol. Er enghraifft, roedd un ysgol a oedd yn arfer defnyddio e-bost i rannu gwybodaeth yn sylweddoli bod staff yn ei chael hi'n anodd cadw i fyny â'r holl negeseuon e-bost a oedd yn cyrraedd yn rheolaidd. Yn hytrach, fe wnaethon nhw sefydlu Google Classroom i gadw'r holl wybodaeth er mwyn i staff allu cael gafael arni pan oedden nhw eisiau neu angen gwneud hynny.

Mae'n debyg mai'r llwyfannau mwyaf defnyddiol ar gyfer siopau un stop yw rhai digidol, sy'n caniatáu i staff gael gafael ar y wybodaeth maen nhw ei heisiau, pan maen nhw ei heisiau ac yn ddienw. Dywedodd ysgolion y gallai gwybodaeth gynnwys gwybodaeth broffesiynol (e.e. gwybodaeth sy'n gysylltiedig ag WSAEMWB) a gwybodaeth i gefnogi lles personol (e.e. gwasanaethau cwnsela; gwasanaethau ariannol; buddion a chynigion i aelodau staff).

Er mwyn i siopau un stop weithio, efallai y byddai'n ddefnyddiol dyrannu unigolyn neu dîm sy'n gyfrifol am gasglu a llwytho gwybodaeth i fyny i'r siop un stop yn ogystal â chaniatáu i unrhyw aelod o staff lwytho unrhyw beth o ddiddordeb i fyny a'i rannu.

6.6 Caniatáu amser o'r gwaith i staff am resymau teuluol

Dywedodd y cyfranogwyr fod rhai ysgolion yn rhoi rhywfaint o hyblygrwydd i staff gymryd amser i ffwrdd am resymau personol a theuluol er mwyn cefnogi lles staff. Gall hyn fod ar gyfer apwyntiadau naill ai iddyn nhw eu hunain neu i'w teuluoedd (e.e. iechyd a lles, ariannol). Dywedodd y cyfranogwyr fod rhai ysgolion hefyd yn caniatáu i staff gymryd amser i ffwrdd i weld dramâu ysgol neu ddiwrnodau chwaraeon eu plant eu hunain. Gall yr hyblygrwydd hwn sicrhau nad yw staff yn colli digwyddiadau allweddol eu plentyn eu hunain yn yr ysgol, yn yr un modd ag y maent yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod teuluoedd eu dysgwyr eu hunain yn ymgysylltu â'r math hwn o ddigwyddiad pwysig. Gallai athrawon a phlant hefyd ganfod bod aelodau o'u teulu sy'n athrawon yn absennol o'r digwyddiadau hyn. Gyda'r WSAEMWB yn rhoi pwyslais ar iechyd a lles y teulu, roedd teimlad cryf y gall caniatáu i staff fynd i ddramâu ysgol a diwrnodau chwaraeon, er enghraifft, gyfrannu at les meddyliol teuluoedd y staff eu hunain, ac felly lles meddyliol aelodau staff.

Os mabwysiadir dulliau tebyg, mae angen i ysgolion ystyried sut y gallant gyflenwi ar gyfer staff sy'n absennol. Efallai y bydd gan ysgolion mwy well capasiti i ymdrin â hyn yn fewnol drwy symud CPA o gwmpas, er enghraifft.

6.6.1 Enghreifftiau o ymarfer: 'teulu yn gyntaf'

Roedd gan Ysgol F athroniaeth 'teulu yn gyntaf' fel rhan o'i hymrwymiad cryf i les staff. Mae Ysgol F yn ysgol arbennig ac roedd yn cydnabod bod angen lles da ar eu staff, gydag aelod o'r Uwch Dîm Arwain yn dweud "Rwy'n meddwl am les staff. I ni, mae'n amlwg na all ein staff wneud y gwaith maen nhw'n ei wneud gyda'r plant, gyda'r anghenion sydd gan ein plant, oni bai eu bod mewn lle da."

